Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM yng Nghymru

HM Prison & Probation Service in Wales

Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol

National Probation Service

Youth Justice Board
Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid

Egwyddorion a chanllawiau ar gyfer pontio o wasanaethau ieuenctid i wasanaethau oedolion

(Cymru)

Protocol ar y cyd ar gyfer rheoli achosion pobl ifanc sy'n symud o Dimau Troseddau Ieuenctid i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol

Gorffennaf 2020

Rheolwyr Timau Troseddu Ieuenctid Cymru
YOT Managers Cymru

iom ymru

Cynnwys

1.	**Diben**	**3**
2.	**Cwmpas**	**4**
3.	**Egwyddorion Pontio**	**5**
4.	**Dechrau ac adolygu**	**5**
5.	**Cyflawni'n lleol, monitro a llywodraethu**	**6**
6.	**Cyd-destun Cymreig**	**6**
7.	**Canllawiau Defnyddiol Eraill**	**8**
8.	**Rolau a chyfrifoldebau'r Tîm Troseddau Ieuenctid**	**10**
9.	**Rolau a chyfrifoldebau'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol**	**14**
10.	**Trosglwyddo Gorchmynion Penodol**	**16**
11.	**Trefniadau mewn achos o Dramgwyddo**	**19**
12.	**Ystyriaethau Eraill o safbwynt Trefniadau Trosglwyddo**	**20**
13.	**Y broses anghydfodau a datrysiadau**	**24**
14.	**Llofnodwyr**	**25**
Atodiad A – Fframwaith Pontio o Wasanaethau Ieuenctid i Wasanaethau Oedolion 2020: Map o'r broses		26
Atodiad B – Rôl rheolwr troseddwyr sy'n pontio o wasanaethau ieuenctid i wasanaethau oedolion (Y2A)		28
Atodiad C – Canllaw Cam wrth Gam i Bontio (Y2A)		29
Atodiad D – Gwerthoedd, Egwyddorion a Ystyriaethau Ymarfer a gyfarwyddir gan Drawma		32

1. Diben

1.1 Mae'r protocol hwn yn amlinellu priod weithdrefnau a chyfrifoldebau gweithredol y timau troseddau ieuenctid (YOT) a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS) yng Nghymru, er mwyn eu helpu i reoli'n effeithiol y trefniadau ar gyfer trosglwyddo'r oruchwyliaeth oddi wrth y YOT i'r gwasanaeth prawf.

1.2 Mae'n nodi cyfrifoldebau'r ddau sefydliad er mwyn galluogi iddynt weithio â'i gilydd i sicrhau bod y broses bontio yn cael ei chyflawni mor llyfn â phosibl a bod gan bawb ddealltwriaeth glir o'r ymrwymiadau a wneir yn y ddogfen hon.

1.3 Dylid darllen a gweithredu'r protocol gan gyfeirio at y Canllaw ar Reoli Achosion gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid[1], sy'n rhoi cyngor ar sut i weithio â phlant yn y system cyfiawnder ieuenctid, a Map Proses y Fframwaith Pontio o wasanaethau Ieuenctid i wasanaethau Oedolion 2020.[2]

1.4 Mae Safon 5 o'r *Safonau ar gyfer Plant yn y System Cyfiawnder Ieuenctid*[3] (2019) yn diffinio'r lleiaf a ddisgwylir oddi wrth bob asiantaeth sy'n darparu gwasanaethau statudol i sicrhau canlyniadau da i blant yn y system cyfiawnder ieuenctid. Mae'n mynnu bod gan YOTau a'u byrddau rheoli beirianweithiau ar waith i'w sicrhau y ceir cynlluniau wedi'u teilwra ar gyfer y rheini sy'n pontio rhwng gwasanaethau ac o'r system ieuenctid i'r system oedolion.

1.5 Mae'r canlynol wedi cyfrannu at ddatblygu a chytuno ar y protocol: y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, Rheolwyr YOT Cymru a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi yng Nghymru.





Colin Allars	Nic Davies	Gill Adams
Prif Weithredwr	Cyfarwyddwr	Cadeirydd
Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr	Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yng Nghymru Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi yng Nghymru	Rheolwyr YOT Cymru

[1] https://www.gov.uk/government/collections/case-management-guidance

[2] Mae Atodiad A, Map Proses y Fframwaith Pontio o Wasanaethau Ieuenctid i Wasanaethau Oedolion 2020 o gymorth i gyflawni'r protocol hwn.

[3] https://www.gov.uk/government/publications/national-standards-for-youth-justice-services

2. Cwmpas

2.1 Caiff y protocol cenedlaethol hwn sy'n ymwneud â'r broses bontio o'r system ieuenctid i'r system oedolion ei fabwysiadu ar draws y NPS a'r YOTau yng Nghymru.

2.2 Er mwyn eglurder yn y ddogfen hon, bydd y term 'pobl ifanc' yn cyfeirio at rai dan 18 oed, a bydd y term 'oedolion ifanc' yn cyfeirio at rai 18-25 oed.

Gwasanaethau Prawf ac Adsefydlu yn y Dyfodol

2.3 Cyhoeddodd y Llywodraeth ar y 27ain o Orffennaf 2018 y byddai HMPPS yn terfynu contractau'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol (CRC) yn fuan, a'r cynigion ar gyfer Cymru oedd y byddai'r holl wasanaethau rheoli troseddwyr yn dod dan law'r NPS erbyn 2020.

Cadarnhawyd y cynigion hyn yn ystod 2019 drwy gyhoeddi'r ymateb i'r ymgynghoriad a'r Model Arfaethedig ar gyfer Dyfodol Gwasanaethau Prawf: Glasbrint Gweithredu Drafft. Ar 2 Rhagfyr 2019, cafodd y cyfrifoldeb dros reoli troseddwyr ei drosglwyddo i'r NPS yng Nghymru, gan nodi'r gwaith o gymryd y cam cyntaf at y model prawf newydd. Mae'r ddogfen hon yn adlewyrchu'r trefniadau newydd hyn, lle bo'r holl bobl ifanc sy'n pontio i wasanaethau oedolion yn cael eu rheoli gan y NPS.

3. Egwyddorion Pontio

3.1 Amcan cyffredinol y protocol hwn a'r amcan sydd y tu ôl i broses bontio effeithiol yw y dylai gael ei rheoli'n ddiogel ar gyfer y person ifanc a'i gymuned.

Er bod rhai cyfyngiadau i'w cael ar y math o orchmynion statudol ieuenctid y gellir eu trosglwyddo i'r NPS, (lle bo'r person ifanc yn bodloni'r trothwy cymhwysedd oedran), yr ystyriaeth sylfaenol o hyd yw'r angen i gyd-asesu pa mor briodol yw trosglwyddo'r person ifanc. Dylai'r ystyriaeth hon fod yn seiliedig ar amrywiol ffactorau gan gynnwys ymataliad, diogelwch, llesiant a risg, a bod yn ystyriol o'r cyfrifoldebau statudol ar yr un pryd.

3.2 Mae'r broses bontio yn seiliedig ar yr egwyddorion canlynol:

1. Bydd anghenion yr unigolyn a'r gofynion diogelu yn cael eu cydnabod ac yn cael sylw
2. Bydd pobl ifanc sy'n gymwys i gael eu trosglwyddo yn cael eu hadnabod a'u dyrannu i staff cyfiawnder oedolion cyn gynted â phosibl
3. Rhaid i bob person ifanc a allai drosglwyddo i wasanaethau oedolion gael cynllun pontio
4. Dylai'r gwaith o gynllunio'r pontio ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau hyblyg a pharhaus sydd wedi'u teilwra i fodloni anghenion yr unigolyn. Dylai hyn gynnwys rhoi ystyriaeth i unrhyw faterion amrywiaeth ar gyfer pob unigolyn. Amlygodd Adolygiad Lammy (2017) y gwahaniaeth yng nghanlyniadau unigolion o gefndiroedd Du a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME), yn enwedig ymysg dynion du ifanc. Felly, rhaid i'r gwaith o gynllunio'r broses bontio roi ystyriaeth i nodweddion gwarchodedig, sef y rheini a gynhwysir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.
5. Rhaid i wybodaeth berthnasol am bobl ifanc gael ei rhannu rhwng y gwasanaethau ieuenctid a'r gwasanaethau oedolion cyn iddynt drosglwyddo
6. Bydd gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid ac oedolion yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau canlyniadau pontio effeithiol, gan gynnwys cynnal ymyraethau a chynnydd
7. Bydd gan bobl ifanc a'u teuluoedd ran ganolog i'w chwarae yn y gwaith o gynllunio ar gyfer eu proses bontio a byddant yn deall ac yn cytuno â'r cynlluniau a fydd ar waith
8. Caiff pob achos pontio ei adolygu a bydd gwasanaethau yn ceisio gwella'n barhaus, gan hwyluso'r siwrnai at ddyfodol cadarnhaol ac ymataliad rhag troseddu, gan ddatblygu ar sgiliau, cryfderau a diddordebau

4. Dechrau ac adolygu

4.1 Caiff y protocol ei weithredu o'r 1af Ebrill 2020 ymlaen. Bydd Canllawiau Rheoli Achosion y YJB a map proses y Fframwaith Pontio o Wasanaethau Ieuenctid i Wasanaethau Oedolion (Atodiad A) yn cefnogi'r protocol hwn drwy ddarparu arweiniad manwl ar y broses bontio.

4.2 Bydd yr YJB, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM a Rheolwyr YOT Cymru yn adolygu cynnwys y protocol yn 2021. Ymgynghorir â chynrychiolwyr o bob un o'r grwpiau llofnodi cyn gwneud diwygiadau pellach.

5. Cyflawni'n lleol, monitro a llywodraethu

5.1 Bwriedir i'r protocol hwn ddarparu i bob llofnodwr fanylion y cyfraniad lleiaf y gallant ei ddisgwyl oddi wrth eu partneriaid. Nid yw hyn yn disodli'r angen am drefniadau pontio pwrpasol na'r angen amgyfathrebu lleol da.

5.2 Saif y cyfrifoldeb am yr arweinyddiaeth leol ac am gyflawni'r protocol hwn gyda'r:

- Timau Troseddau Ieuenctid – Rheolwr YOT
- Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol – Cyfarwyddwr Adrannol

5.3 Bydd y personél a nodir yn 5.2 yn gyfrifol am sicrhau bod y trefniadau pontio yn cael eu monitro yn lleol, o fewn sefydliadau unigol ac ar y cyd rhwng y llofnodwyr. I gynorthwyo â'r broses hon, argymhellir bod byrddau rheoli YOT yn adolygu'r perfformiad ac yn monitro'r data ar yr achosion sy'n cael eu goruchwylio gan staff y NPS sydd wedi'u secondio ac yn cadw golwg ar lwyth gwaith y swyddog prawf sydd wedi'i secondio gan gynnwys ond nid yn gyfyngedig i'w waith pontio.

5.4 Mae'r bartneriaeth rhwng y YOT a'r NPS yn gyfrifol am gynnal protocol rhannu gwybodaeth o safbwynt y bobl ifanc hynny:

- a fydd yn aros dan oruchwyliaeth y YOT yn 18 oed
- a fydd yn trosglwyddo i oruchwyliaeth y NPS yn oddeutu 18 oed
- sy'n dod i sylw'r NPS pan maent dros 18 oed ond a oedd yn hysbys i'r YOT yn y gorffennol.

6. Cyd-destun Cymreig

Tirlun Strategol

6.1 Caiff y cyd-destun polisi yng Nghymru sy'n arwain y gwaith partneriaeth o safbwynt timau troseddau ieuenctid ei bennu gan "Plant a Phobl Ifanc yn Gyntaf (2014)", sef cyd strategaeth YJB Cymru a Llywodraeth Cymru ar gyfer cyfiawnder ieuenctid, 'Glasbrint ar gyfer cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru (2019)", a 'Fframwaith ar gyfer Rhoi Cefnogaeth i'r Rheini sydd mewn Perygl o Droseddu yng Nghymru' Llywodraeth Cymru a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae'r rhain yn cydnabod anghenion unigryw pobl ifanc ac oedolion ifanc ac maent yn awyddus i ymatebion gwell gael eu datblygu ar eu cyfer, gan gynnwys drwy'r broses bontio o wasanaethau ieuenctid i wasanaethau oedolion, er mwyn eu helpu i ymatal rhag ymddygiad troseddol.

6.2 Mae'r ffordd yr ymdrinnir â chyfiawnder ieuenctid yng Nghymru yn sicrhau mai'r person ifanc yw'r ffocws, ac yn canolbwyntio ar ei anghenion yn hytrach nag ar ei ymddygiad er mwyn cael y canlyniadau gorau posibl i'r person ifanc, i ddioddefwyr a'r cyhoedd. Mae'r dull hwn yn cyd-fynd â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC), sydd wedi'i ymgorffori mewn deddfwriaeth Gymreig drwy gyfrwng Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011[4]. Mae hefyd yn adlewyrchu ymrwymiad yr YJB i ymgysylltu â phobl ifanc a'u rhoi wrth wraidd eu gwaith, fel y nodir yn ei strategaeth gyfranogi[5].

6.3 Mae YJB Cymru, HMPPS yng Nghymru a Rheolwyr YOT Cymru wedi ymrwymo i weithio gyda'i gilydd er mwyn gwella'u hymarfer a'u dulliau cydweithio o safbwynt y trefniadau pontio o'r systemau ieuenctid i'r systemau oedolion. Er mwyn cael proses bontio lwyddiannus, mae gofyn i nifer o sefydliadau weithio gyda'i gilydd, gan hybu gweithio mewn partneriaeth a dysgu, a chael effaith gadarnhaol ar y system gyfiawnder yn ei chyfanrwydd.

Trefniadau Pontio yng Nghymru

6.4 Y YOT a'r NPS sy'n gyfrifol am benderfynu ai trosglwyddo i'r gwasanaethau prawf sydd orau er lles y person ifanc ar ôl iddo ef/hi gyrraedd 18 oed. Gallai'r YOT ddewis cadw achos, ond os gwneir y penderfyniad i drosglwyddo, byddant yn hysbysu'r NPS, a byddant hwy yn dewis rheolwr troseddwyr priodol ar gyfer yr unigolyn gan ddefnyddio'r systemau asesu risg perthnasol. Yng Nghymru, mae pob achos YOT, lle bo modd, yn pontio i'r timau Rheoli Troseddwyr yn Integredig (IOM).

Rheoli Troseddwyr yn Integredig

6.5 Mae IOM yn caniatáu i asiantaethau lleol ac asiantaethau partner gydlynu'r gwaith o reoli grwpiau troseddwyr y mae angen rhoi blaenoriaeth iddynt, ac yng Nghymru caiff hyn ei gyflawni drwy drefniadau IOM Cymru. Mae IOM Cymru yn cyflawni hyn drwy dimau gweithredol aml-asiantaeth sydd wedi'u lleoli ledled Cymru (gallent gael eu cydleoli lle bo hynny'n bosibl ac yn briodol). Mae'r timau hyn fel arfer yn cynnwys y gwasanaeth prawf, yr heddlu, awdurdodau lleol a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, ac mae ganddynt gysylltiadau cryf ag asiantaethau cymorth ehangach, megis y Ganolfan Byd Gwaith a darparwyr gwasanaethau'r sector gwirfoddol.

6.6 Gan ystyried y cysylltiadau aml-asiantaeth cryf hyn, mae dull gweithredu IOM Cymru yn ei roi mewn sefyllfa dda i ddarparu i oedolion ifanc sy'n pontio fynediad i gymorth parhaus gan ddarparwyr cyfiawnder troseddol statudol a gan amrywiol bartneriaid cyflawni allweddol, gan gynnwys mynediad i ymyraethau wedi'u targedu (a ddarperir yn aml gan y sector gwirfoddol a chymunedol), lefelau cymorth da a threfniadau rhannu gwybodaeth o ansawdd.

6.7 Mae gwerthoedd IOM Cymru yn cynnwys dull personol, sy'n cyd-fynd â'r ethos pontio, er mwyn eu galluogi i roi cymorth wedi'i deilwra i'r oedolyn ifanc a'i baratoi ar gyfer bywyd fel oedolyn. Mae pontio drwy'r timau IOM yn galluogi i reolwyr achos gysylltu'n fwy effeithiol â'r heddlu er mwyn lleihau'r risg i'r cyhoedd, delio â phryderon ynglŷn â gwarchod y cyhoedd ac felly gwella diogelwch yn y gymuned.

---

[4] http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/2/contents

[5] YJB (2017) *Participation Strategy Giving Young People a Voice in Youth Justice* Llundain: YJB

Rheolwr Troseddwyr sy'n Pontio o Wasanaethau Ieuenctid i Wasanaethau Oedolion (Y2A)

6.8 Lle bo adnoddau priodol ar gael mae rhai ardaloedd yng Nghymru wedi mabwysiadu rôl Rheolwr Troseddwyr Pontio Y2A, sy'n rôl arbenigol sy'n gyfrifol am gefnogi rhai sy'n pontio o'r YOT i'r gwasanaeth prawf. Mae'r swyddog yn gweithio'n rhan-amser yn y YOT ac yn rhan-amser yn y NPS (wedi'i leoli yn y tîm IOM lleol), gan reoli'r broses bontio'n effeithiol ac yn effeithlon a sicrhau dilyniant yn y berthynas â'r person ifanc a chefnogaeth gyson. Mae rhagor o wybodaeth am y rôl hon i'w chael yn Atodiad B.

6.9 Cafodd y rôl ei henwi fel un maes ymarfer da,[6] a dylid ei gweithredu lle bo hynny'n bosibl; cydnabyddir fodd bynnag y gallai'r cyfleoedd i wneud hynny fod yn ddibynnol ar amgylchiadau lleol a p'un a oes adnoddau priodol ar gael. Ni waeth beth yw'r trefniadau lleol, dylid canolbwyntio bob amser ar anghenion y person ifanc er mwyn sicrhau bod y proses o bontio i wasanaethau oedolion yn broses mor ddi-dor â phosibl a bod ei anghenion ef neu hi yn dal i gael eu bodloni.

6.10 Yn Atodiad C ceir arweiniad cam wrth gam sy'n amlinellu'r broses bontio i'r timau IOM a lle mae Rheolwr Troseddwyr sy'n Pontio mewn swydd.

7. Canllawiau Defnyddiol Eraill

7.1 Saif y canllawiau hyn ochr yn ochr â nifer o ddogfennau allweddol eraill y cyfeiriwyd atynt yn flaenorol sy'n llywio'r broses bontio o asiantaethau cyfiawnder troseddol ieuenctid i rai oedolion.

- Strategaeth Cyfiawnder Ieuenctid Cymru y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid/ Llywodraeth Cymru: Plant a Phobl Ifanc yn Gyntaf[7]
- Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru Llywodraeth Cymru a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder (2019)[8]
- Fframwaith i gefnogi newid positif ar gyfer y rheini sydd mewn risg o droseddu yng Nghymru 2018-2023[9]
- Canllawiau Rheoli Achosion y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid[10]
- Safonau ar gyfer Plant yn y System Cyfiawnder Ieuenctid[11]
- Canllawiau Gorchmynion Cyfeirio y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder[12]

---

[6] Transition to Adulthood Alliance/Clinks (2015) *Effective Approaches with Young Adults: A guide for probation services* https://d7.clinks.org/resources-guides-toolkits/effective-approaches-young-adults-guide-probation-services

[7] https://www.gov.uk/government/publications/youth-justice-strategy-for-wales-children-and-young-people-first

[8] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/glasbrint-ar-gyfer-cyfiawnder-ieuenctid.pdf

[9] https://llyw.cymru/rhoi-cefnogaeth-ir-rheini-sydd-mewn-perygl-o-aildroseddu

[10] https://www.gov.uk/government/collections/case-management-guidance

[11] https://www.gov.uk/government/publications/national-standards-for-youth-justice-services

- Fframwaith Partneriaeth Cenedlaethol YOS y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid/HMPPS yng Nghymru
- Glasbrint Cyfiawnder ar gyfer Troseddwyr Benywaidd yng Nghymru Llywodraeth Cymru a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder (2019)[13]

[12] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/746365/referral-order-guidance-9-october-2018.pdf

[13] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/glasbrint-ar-gyfer-troseddwyr-benywaidd.pdf

8. Rolau a chyfrifoldebau'r Tîm Troseddau Ieuenctid

8.1 Mae'r YOT yn gyfrifol am oruchwylio plant a phobl ifanc 10 i 17 oed sy'n cael eu dedfrydu gan lys, yn unol â *Safonau'r YJB ar gyfer Plant yn y System Cyfiawnder Ieuenctid y YJB*[14] a'r *Canllawiau Rheoli Achosion*[15].

8.2 Mae gofyn i'r YOT ddilyn y canllawiau a amlinellir yn y protocol hwn, a'i ddefnyddio i fabwysiadu system leol i reoli'r broses o bontio pobl ifanc o'r system cyfiawnder troseddol ieuenctid i'r system ar gyfer oedolion.

8.3 Bydd angen ystyried pob achos yn ofalus, yn enwedig achosion plant sy'n derbyn gofal, pobl ifanc sy'n gadael gofal a rhai sy'n rhwym wrth MAPPA neu oruchwyliaeth estynedig dan orchmynion cadw a hyfforddi pan drônt yn 18 yn y ddalfa. [16] Dylid adolygu'r wybodaeth o asesiadau sydd ar gael yn yr achos, gan gynnwys asesiad mwy manwl o iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau, iaith a lleferydd, yn ogystal â diogelwch a lles.

8.4 Bydd pob YOT:

8.4.1 Yn meddu ar swyddog prawf cymwysedig wedi'i secondio i weithredu fel y cyswllt arweiniol â'r NPS a fydd yn darparu cyngor ac argymhellion ar bontio i wasanaethau oedolion.

8.4.2 Yn adnabod y bobl ifanc dan oruchwyliaeth YOT a fydd yn gymwys i drosglwyddo i wasanaethau prawf ar ôl iddynt droi'n 18 oed. Gwneir hyn cyn gynted ag y dedfrydir y person ifanc a chaiff ei nodi yn ei gynllun dedfryd.

8.4.3 Yn hysbysu'r person ifanc a'i deulu/gofalwr am y broses bontio i wasanaethau oedolion ac yn eu hysbysu a'u cynnwys ym mhob cam o'r broses. Yn sicrhau bod rhieni/gofalwyr, lle bo hynny'n briodol, yn rhan o'r trafodaethau am drosglwyddo ac yn rhan o'r cyfarfodydd trosglwyddo os yw hynny'n debygol o helpu cynnydd ac ymgysylltiad y person ifanc.

8.4.4 Yn sicrhau bod gan y person ifanc gynllun pontio cyn gynted ag y gwelir ei fod angen un ac erbyn ei ben-blwydd yn 17 mlwydd a 6 mis oed fan bellaf[17]. Nid oes templed cenedlaethol i'w gael ar gyfer y cynllun hwn, a bydd angen datblygu un yn lleol. Dylai'r cynllun ganolbwyntio ar angen yr unigolyn, a nodi pa wasanaethau sydd fwyaf priodol i fodloni'r anghenion hynny. Fan leiaf, bydd y cynllun pontio yn rhoi sylw i'r meysydd canlynol:

- Yn darparu cyngor a gwybodaeth i hysbysu'r person ifanc a'i deulu am y system cyfiawnder oedolion

---

[14] Mae'r *Safonau ar gyfer Plant yn y System Cyfiawnder Ieuenctid* yn datgan disgwyliadau lleiaf yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer ymarfer a darparui gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid.

[15] Mae'r Canllawiau Rheoli Achosion yn darparu i'r TTI gyngor ar gyfnodau allweddol gydol achos, o arestio, gweithio yn y llys, cynllunio a rheoli ymyraethau ar ôl dedfrydu ac adsefydlu a phontio.

[16] Mae Deddf Adsefydlu Troseddwyr 2014 yn diwygio Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 yn adran 256AA o safbwynt ymestyn goruchwyliaeth i rai sy'n troi'n 18 yn y ddalfa.

[17] Gweler Atodiad A.

- Yn gofyn barn y person ifanc ac yn cynnwys y farn honno yn y cynllun
- Yn gwrando ar y pryderon sydd gan y person ifanc ac yn lleddfu eu gorbryder
- Yn disgrifio sut caiff y berthynas â'r rheolwr troseddwyr enwebedig o'r NPS ei datblygu
- Yn cydnabod pa wasanaethau yn y YOT a fydd/na fydd ar gael yn y NPS ac yn ceisio rhoi sylw i unrhyw fylchau
- Yn sicrhau bod anghenion iechyd (emosiynol, meddyliol a chorfforol) yn cael eu hystyried a'u rheoli
- Yn sicrhau bod anghenion dysgu a chyfathrebu yn cael eu hystyried a'u rheoli

8.4.5 Yn cwrdd â'r NPS fel y cytunwyd yn lleol, i adolygu pobl ifanc sy'n nesáu at eu 18 oed ac sy'n gymwys i drosglwyddo i wasanaethau oedolion, yn monitro unrhyw achosion, yn adnabod ac yn delio ag unrhyw broblemau yn y broses bontio ac yn eu helpu i feithrin perthynas y gallant ymddiried ynddi â'u rheolwr achosion newydd.

8.4.5 Wrth drefnu cyfarfod i drafod y rheini sy'n gymwys i drosglwyddo, yn sicrhau bod yr holl ddarparwyr ymyraethau (gan gynnwys darparwyr iechyd ac addysg, hyfforddiant a chyflogaeth) yn cael eu hysbysu o'r achosion sy'n pontio i'r NPS ac i sefydliadau i oedolion ymlaen llaw a bod ganddynt ran briodol i'w chwarae mewn cyfarfodydd trosglwyddo achosion er mwyn sicrhau dilyniant yn y ddarpariaeth.

8.4.7 Yn sicrhau bod penderfyniadau i drosglwyddo pobl ifanc i wasanaethau cyfiawnder oedolion neu gadw oedolion ifanc mewn gwasanaethau i ieuenctid yn cael eu cofnodi yn y cofnod achos, gan gynnwys y rhesymeg dros y penderfyniad. Dylai'r penderfyniad ystyried barn y bobl ifanc, a pha waith y mae angen ei wneud i gyrraedd nodau'r ddedfryd, i leihau'r tebygolrwydd o aildroseddu a'r risg o niwed i eraill, ac i reoli gwendidau, diogelwch a llesiant. Caiff y penderfyniad i naill ai gadw achos yn y YOT neu ei drosglwyddo i'r NPS ei gofnodi ar NDelius.

8.4.8 Yn gweithio gyda swyddog prawf y YOT i gwblhau'r offeryn Risg o Aildroseddu Difrifol (RSR) ynghyd ag adroddiadau/adolygiadau ar y person ifanc er mwyn helpu i ddewis rheolwr troseddwyr priodol yn y NPS. Dylid gwneud hyn erbyn yr amser pan fo'r person ifanc yn cyrraedd 17 mlwydd a 6 mis oed fan bellaf. Ni ddylid aros nes bo'r person ifanc yn 18 oed cyn dyrannu rheolwr troseddwyr yn y NPS.

8.4.9 Yn parhau i adolygu achos y person ifanc, yn nodi risgiau a chryfderau ac yn darparu gwybodaeth ddiweddar i'r NPS i'w helpu i ddyrannu'r achos i'r rheolwr troseddwyr yn y NPS. Dylid cwblhau hyn cyn i'r person ifanc gyrraedd 17 mlwydd 9 mis oed.[18] Fel uchod, ni ddylid aros nes bo'r person ifanc yn 18 oed cyn dyrannu rheolwr troseddwyr yn y NPS.

8.4.10 Rhaid i gynllun dedfryd y person ifanc gan y YOT a'r ystâd ddiogel (lle bo'n briodol) roi ystyriaeth i drosglwyddo'r sawl i wasanaethau cyfiawnder oedolion i'r dyfodol. Rhaid i gynlluniau yn y NPS ac ystâd y ddalfa i oedolion roi ystyriaeth i wybodaeth a geir gan y gwasanaethau ieuenctid, er mwyn sicrhau bod ymyraethau sydd heb eu rhoi ar waith yn cael eu trefnu a'u gweithredu.

[18] Gweler Atodiad A.

8.4.11 Cyn trosglwyddo achosion i wasanaethau cyfiawnder oedolion, dylid cwblhau cam 'Trosglwyddo i'r Gwasanaeth Prawf' AssetPlus ac mae hynny'n ysgogi'r modiwl 'o Wasanaethau Ieuenctid i Wasanaethau Oedolion'. Mae hwn yn cynnwys cwestiynau ychwanegol y mae angen eu hystyried i baratoi ar gyfer y pontio.

Pan gaiff yr achos ei drosglwyddo i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol:

8.4.12 Os yw ar gael, defnyddiwch yr offer rhannu gwybodaeth cymeradwy i gyfnewid gwybodaeth, uwchlwytho dogfennau a chofnodi trefniadau pontio'r person ifanc i'r gwasanaethau prawf.[19]

8.4.13 Rhaid i'r YOT hysbysu'r person ifanc a'i deulu/gofalwr o'r penderfyniad i symud y gwaith o reoli ei achos i'r NPS a rhaid iddo ddal i gysylltu â nhw ynglŷn ag amseriad y trosglwyddiad.

8.4.14 Rhaid i reolwr achosion YOT fynychu'r holl gyfarfodydd pontio a:

- Chydlynu'r cyfarfod cychwynnol cyn-trosglwyddo gyda'r NPS – a gynhelir pan fo'r sawl yn 17 mlwydd 6 mis oed (neu 6 mis cyn y trosglwyddo).
- Cydlynu'r cyfarfod aml-asiantaeth – a gynhelir pan fo'r sawl yn 17 mlwydd 9 mis oed (neu 3 mis cyn y trosglwyddo).
- Sicrhau bod yr holl ddarparwyr ymyraethau (gan gynnwys darparwyr iechyd ac addysg, hyfforddiant a chyflogaeth) yn cael eu hysbysu o'r achosion sy'n pontio a'u bod yn cael eu gwahodd i'r holl gyfarfodydd trosglwyddo er mwyn sicrhau dilyniant yn y ddarpariaeth.
- Mynychu'r cyfarfod trosglwyddo terfynol – a gynhelir pan fo'r achos yn cael ei drosglwyddo.
- Mynychu'r cyfarfod ar ôl trosglwyddo – a gynhelir ar ôl i'r achos gael ei drosglwyddo i wasanaethau oedolion i adolygu'r pontio (4 i 6 wythnos ar ôl trosglwyddo).

8.4.15 Pan fo person ifanc wedi cael ei roi yn y ddalfa, ond y gwelwyd ei fod yn debygol o droi'n 18 wrth iddo dreulio elfen garchar neu gymunedol y ddedfryd honno, rhaid i'r YOT gysylltu â'r sefydliad cadw a'r adran yn y NPS y bydd y person ifanc yn cael ei ddyrannu iddi pan fo'n 18 oed a chydweithio â nhw i asesu anghenion y person ifanc o ran ei leoli yn yr ystâd oedolion, cytuno ar gynllun pontio a sicrhau bod yr egwyddorion pontio (fel y'u nodir ar dudalen 5) yn cael eu gweithredu.

8.4.16 I bobl ifanc sy'n cael dedfryd o 12 mis neu ragor yn y carchar neu ddedfryd benagored cyn neu yn ystod y broses bontio, mae'n bwysig eu bod nhw a'u teuluoedd yn cael eu hysbysu o'r canllawiau Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa (OMiC). Mae'n bwysig bod gan bobl ifanc a'u teuluoedd ddisgwyliadau clir o rolau a chyfrifoldebau'r gwasanaethau lleol a gwasanaethau'r ystâd ddiogel.

8.4.17 Pan fo person ifanc yn y ddalfa ac yn trosglwyddo i'r NPS pan gaiff ei ryddhau neu'n fuan wedyn, dylai'r YOT sicrhau bod y canllawiau adsefydlu yn

---

[19] Bydd y GPC yn defnyddio n-Delius, gan ddilyn y broses a ddisgrifir yn CRI 025, i dderbyn dogfennau achosion ffurfiol oddi wrth y TTI a chofnodi manylion pontio'r person ifanc.

cael eu dilyn a bod yr adran yn y NPS sy'n ei dderbyn yn gallu cyfrannu at y cynllun adsefydlu. Mae'r egwyddorion i'w cael yn y canllawiau Pathways to Resettlement[20], yn yr adrannau perthnasol o Ganllawiau Rheoli Achosion y YJB[21] a chanllawiau'r YJB How to Make Resettlement Constructive[22]. Lle bo hynny'n bosibl, dylai'r gweithiwr a ddewiswyd yn y NPS gyfarfod y person ifanc pan fo yn y ddalfa cyn ei ryddhau.

8.4.18 Dylid monitro ac adolygu'n barhaus effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer trosglwyddo pobl ifanc oddi wrth wasanaethau cyfiawnder ieuenctid i wasanaethau oedolion, ac ar gyfer cadw oedolion ifanc mewn gwasanaethau ieuenctid.

8.4.19 Dylid trefnu cyfarfod rheolaidd rhwng rheolwyr o'r NPS a'r YOT er mwyn adolygu'r gwaith pontio a wnaed, er mwyn nodi a lledaenu'r arferion da a'r gwersi a ddysgwyd ac er mwyn sicrhau bod y pwyslais bob amser yn cael ei roi ar wella gwasanaethau a chanlyniadau i'r grŵp hwn o bobl ifanc. Dylai ystyried adborth gan bobl ifanc a'u teuluoedd ochr yn ochr â data ar nifer y trosglwyddiadau, nifer y tramgwyddau, canlyniadau llwyddiannus, ayb. Dylid codi unrhyw rwystrau rhag pontio effeithiol â'r priod uwch fyrddau rheoli (mae'n debygol mai'r Bwrdd Partneriaeth Cyfiawnder Ieuenctid a Bwrdd y NPS fydd y rhain) er mwyn ystyried sut gellir gwella'r trefniadau lleol.

8.4.20 Os oes swyddogion oedolion ifanc neu staff arbenigol oedolion ifanc i'w cael yn y NPS, dylid ystyried trosglwyddo achosion i'r timau hynny gan roi ystyriaeth i'r lleoliad. Dylid holi'r person ifanc ynglŷn â threfniadau o'r fath a dylid amlinellu'n glir yn y cyfarfod pontio cyntaf y manteision a geir o fynychu apwyntiadau neu ganolfannau oedolion ifanc gyda gweithwyr arbenigol.

---

[20] https://www.gov.uk/government/publications/custody-and-resettlement

[21] https://www.gov.uk/government/collections/case-management-guidance

[22] https://yjresourcehub.uk/yjb-effective-practice/youth-justice-kits/item/610-how-to-make-resettlement-constructive-yjb-document.html

9. Rolau a chyfrifoldebau'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol

9.1 Mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn gyfrifol am oruchwylio achosion oedolion ifanc 18 oed neu drosodd a ddedfrydwyd gan lys, ac am reoli achosion y bobl ifanc hynny sy'n trosglwyddo oddi wrth wasanaethau ieuenctid i wasanaethau oedolion. Y Fframwaith Ymarfer: Mae'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Rheoli Troseddwyr yng Nghymru a Lloegr (2015)[23] yn berthnasol i oruchwyliaeth y Gwasanaeth Prawf dros bob unigolyn 18 oed neu drosodd.

9.2 Bydd y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol:

9.2.1 Yn cyflogi swyddog prawf arweiniol cymwysedig enwebedig a fydd yn gyfrifol am adolygu a dyrannu achosion pontio. Yn cefnogi'r swyddog prawf arweiniol fe fydd adnodd Swyddog gwasanaeth prawf (SGP) a fydd yn gyfrifol am ddyletswyddau yn y llys a'r swyddfa, am gynorthwyo â rheoli achosion a chynnal rhaglenni.

9.2.2. Yn cwrdd â'r YOT fel y cytunwyd yn lleol, i adolygu pobl ifanc sy'n nesáu at eu 18 oed ac sy'n gymwys i drosglwyddo i wasanaethau oedolion, yn monitro'r gwaith o baratoi i drosglwyddo achosion ac yn adnabod ac yn delio ag unrhyw broblemau yn y broses bontio.

9.2.3 Yn adolygu'r argymhellion gan y YOT ynglŷn ag a ddylai achos person ifanc gael ei drosglwyddo i'r NPS ac yn nodi achosion y bydd y YOT yn eu cadw ynghyd â'r rhesymau am hyn. Dylai swyddog prawf y NPS sy'n adolygu'r argymhelliad feddu ar ddealltwriaeth o anghenion plant a phobl ifanc, yn enwedig rhai sy'n gadael gofal; a rhai sy'n cael eu hadnabod neu'u hystyried yn fregus.

9.2.4 Bydd y swyddog prawf YOT a secondiwyd yn yr ardal drosglwyddo yn gyfrifol am gwblhau'r offeryn Risg o Aildroseddu Difrifol (RSR) a rhannu hwn â'r ardal dderbyn i lywio'r penderfyniad ynglŷn â dyrannu. Bydd hyn hefyd yn cynnwys unrhyw adroddiadau/adolygiadau o'r person ifanc, i lywio'r argymhelliad i drosglwyddo i'r NPS. Dylai hyn ddigwydd, fan bellaf, erbyn pan fo'r person ifanc yn cyrraedd 17 mlwydd 6 mis oed (neu chwe mis cyn y dyddiad trosglwyddo y cytunwyd arno).

9.2.5 Yn adolygu'r argymhellion gan y YOT ynglŷn ag a ddylid dyrannu achos i'r NPS a hysbysu'r YOT o'r penderfyniad.

Os bydd yr achos yn cael ei drosglwyddo i'r NPS:

9.2.6 Yn dewis rheolwr troseddwyr penodol enwebedig ac yn hysbysu'r YOT cyn i'r person ifanc droi'n 17 mlwydd 9 mis oed (neu 3 mis cyn ei drosglwyddo).

9.2.7 Yn defnyddio'r gronfa ddata a'r broses wybodaeth gymeradwy i gael dogfennau ffurfiol yr achos oddi wrth y YOT ac yn cofnodi manylion pontio'r

[23] https://www.gov.uk/government/publications/national-standards-for-the-management-of-offenders-practice-framework

person ifanc. Yn sicrhau bod yr holl wybodaeth a'r dogfennau'n cael eu trosglwyddo i system rheoli achosion nDelius.

9.2.8 Yn mynychu'r cyfarfod aml-asiantaeth a gynhelir pan fo'r achos yn 17 mlwydd 9 mis (neu 3 mis cyn pontio) ac yn gweithio â'r YOT i gadarnhau dyddiad ar gyfer trosglwyddo'r achos. Dylai'r person ifanc fod yn bresennol.

9.2.9 Dylai'r rheolwr troseddwyr dyranedig fynychu'r cyfarfod cyn trosglwyddo terfynol pan gaiff yr achos ei drosglwyddo'n ffurfiol i'r NPS. Dylai'r person ifanc fod yn bresennol.

9.2.10 Yn cydlynu ac yn cynnal cyfarfod adolygu'r pontio sydd i'w drefnu fel arfer bedair i chwe wythnos ar ôl y pontio ffurfiol. Fel uchod, dylai'r oedolyn ifanc fod yn bresennol.

9.2.11 Dylai'r rheolwr troseddwyr enwebedig yn y NPS gwblhau asesiad OASys yn dilyn y trosglwyddiad o fewn amserlenni'r asiantaeth.

9.2.12 Os yw'r person ifanc yn y ddalfa, yn hysbysu'r sefydliad cadw ei fod wedi trosglwyddo i wasanaethau oedolion.

10. Trosglwyddo Gorchmynion Penodol

10.1 Er nad oes dim cyfyngiad ar y math o orchmynion statudol ieuenctid y gellir eu trosglwyddo i'r NPS, (lle bo'r person ifanc yn bodloni'r trothwy cymhwysedd oedran), yr ystyriaeth sylfaenol o hyd, yw'r angen i gyd-asesu pa mor briodol yw trosglwyddo'r person ifanc. Dylai'r ystyriaeth hon fod yn seiliedig ar amrywiol ffactorau gan gynnwys ymataliad, diogelwch, llesiant a risg, a gwarchod y cyhoedd, a bod yn ystyriol o'r cyfrifoldebau statudol ar yr un pryd. Y swyddog prawf YOT ar secondiad yw'r prif gyswllt â'r gwasanaethau cyfiawnder oedolion a bydd yn darparu cyngor ac argymhellion ar y broses bontio.

10.2 Argymhellir bod protocol lleol yn cael ei lunio a'i fod yn cynnwys yn benodol a fydd gorchmynion cyfeirio a gorchmynion/trwyddedau â goruchwyliaeth a gwyliadwriaeth ddwys (ISS) yn cael eu trosglwyddo.

10.3 Nid yw'n bosibl i'r YOT godi eilwaith ar y NPS os penderfynant reoli'r gorchymyn eu hunain yn hytrach na'i drosglwyddo.

Gorchmynion Cyfeirio

10.4.1 Ni waeth os yw'r YOT yn cytuno i elfennau o orchymyn cyfeirio gael eu goruchwylio gan gydweithwyr yn y NPS ai peidio, ceidw'r YOT ddyletswydd statudol i weithredu'r gorchymyn ac i wneud trefniadau ar gyfer goruchwylio ymgysylltiad neu ymwrthodiad y person ifanc â thelerau contract eu gorchymyn cyfeirio. I gael gwybodaeth bellach, gweler y canllawiau ar Orchmynion Cyfeirio (2018)[24].

10.4.2 Gallai gwaith adferol â dioddefwyr fynd rhagddo tra pery'r gorchymyn neu fe allai ddigwydd tua diwedd y gorchymyn ar adeg pan fo'r dioddefwr a'r person ifanc yn barod i gyfranogi. Caiff gwaith adferol rhwng y dioddefwr a'r person ifanc yn aml ei wneud y tu allan i'r panel gorchymyn cyfeirio ffurfiol a'r panelau adolygu, a chyfrifoldeb y YOT o hyd yw cyflenwi elfen adferol y gorchymyn.

10.4.3 Yn weithredol, mae hyn yn golygu, os tybir bod hynny'n briodol, y gall person ifanc gael mewnbwn goruchwyliol (megis rhaglenni rheoli ymddygiad grŵp neu un wrth un) gan y NPS sy'n gweithredu ar ran y YOT dan eu cyfrifoldebau pontio. Byddai unrhyw ddiweddariadau ynglŷn â phresenoldeb, tramgwyddo, cynnydd ayb. wedyn yn cael eu darparu i'r YOT i ffurfio rhan o'u hadroddiadau panel ac er mwyn gallu diweddaru cofnodion achos YOT (h.y. ni ddylid cofnodi bod gorchymyn wedi ei drosglwyddo allan).

10.4.4 Nid yw'n bosibl i'r NPS sefydlu, staffio, recriwtio na hyfforddi gwirfoddolwyr i reoli panel gorchymyn cyfeirio. Mae'r YOT yn cadw'r cyfrifoldeb statudol ac o'r

[24] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/746365/referral-order-guidance-9-october-2018.pdf

herwydd y swyddogaethau statudol allweddol. Gall y NPS fwydo i mewn i'r broses hon gan weithio 'ar ran' y YOT.

10.4.5 Disgwylid bod pobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr yn deall ac yn ymgysylltu'n uniongyrchol â'r pontio posibl ar ddechrau'r gorchymyn a bod aelodau'r Panel wedi'u briffio'n dda ar y trefniadau. Dylai'r Panel nodi manylion gofynion adrodd 'gwasanaethau oedolion' dan yr amcanion.

Gwaith Digyflog

10.5.1 Mae'r disgwyliad blaenorol na ellir trosglwyddo unrhyw oriau gwaith digyflog i'r NPS wedi cael ei ddileu.

10.5.2 Os bydd person ifanc 18 oed yn trosglwyddo lle bo oriau gwaith digyflog heb eu gorffen, mae agnen i'r YOT a'r NPS/ Cwmni Adsefydlu Cymunedol (CRC) sefydlu peirianweithiau lleol ar gyfer adfer costau[25].

10.5.3 Mae'r YJB wedi cadarnhau ag arweinyddion contractau CRC y bydd darparwyr yn gallu derbyn taliad am unrhyw oriau gwaith digyflog sy'n weddill os caiff person ifanc ei drosglwyddo.

Goruchwyliaeth a Gwyliadwriaeth Ddwys

10.6.1 Pan fo gorchymyn/trwydded/Rhybudd Goruchwyliaeth yn datgan bod angen ISS bydd angen cael trafodaeth yn lleol am drosglwyddo os na chwblhawyd yr elfen hon o'r gorchymyn/trwydded. Mae hyn yn benodol i'r ddeddfwriaeth cyfiawnder ieuenctid ac felly mae'r NPS yn debygol o'i chael yn anodd darparu goruchwyliaeth/gweithgareddau ar gyfer hyn. Ni all y NPS wrthod person ifanc cymwys ac addas oherwydd eu gofynion ISS.

10.6.2 Os yw'r YOT yn ysgrifennu adroddiad cyn dedfrydu i'r llys a bod yr achos yn cael ei drosglwyddo ar ôl dedfrydu, dylid gwneud cynnig priodol i sicrhau bod y NPS yn gallu goruchwylio yn unol â'r ddedfryd. Fodd bynnag, os yw'r llys yn pennu dedfryd gyda gofynion ISS bydd angen trafod yn lleol unrhyw benderfyniad i gadw neu drosglwyddo'r achos, a dylai'r egwyddorion pontio da fod yn weithredol o hyd.

Gorchmynion Cadw a Hyfforddi; A.91; Goruchwyliaeth Estynedig

10.7.1 Gellir trosglwyddo'r dedfrydau hyn/yr elfennau hyn o'r dedfrydau oddi wrth y YOT i'r NPS fel y bo'n berthnasol. Bydd cynllunio amserol a chydweithredol yn holl bwysig, gyda'r swyddog sydd ar secondiad yn ganolog i'r penderfyniadau a wneir.

10.7.2 Unwaith eto, mae'n hanfodol bod partneriaid yn cael gwybodaeth lawn am y safonau sy'n weithredol ac am y gofynion sy'n benodol i'r person ifanc, h.y. statws sawl sy'n gadael gofal a gweithdrefnau pontio diogel.

10.7.3 Ac ystyried y disgwyliadau a'r gweithdrefnau penodol iawn sy'n gysylltiedig â'r ystâd ddiogel ieuenctid, h.y. cysylltu â lleoliadau Gwasanaeth Cystodaeth

---

[25]Briff Gweithredol Diwygiedig ar Waith Digyflog ar gyfer pobl ifanc 16/17 oed (Rhag 2016) Gorchymyn Adsefydlu Ieuenctid, Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, Rhag 2016)

Ieuenctid (YCS), argymhellir bod y YOT yn cadw goruchwyliaeth dros y bobl ifanc nes iddynt symud i'r ystâd oedolion ifanc. Fodd bynnag, mae trafod yn lleol yn allweddol a dylid cynnwys hynny mewn unrhyw brotocol lleol sy'n cael ei lunio.

11. Trefniadau mewn achos o Dramgwyddo

Trefniadau mewn achos o Dramgwyddo

11.1 Mae Deddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000 yn caniatáu i'r YOT neu'r NPS oruchwylio person ifanc a dwyn achosion tramgwyddo, a'r rheolwr achosion/swyddog goruchwylio a ddylai ddwyn yr achosion tramgwyddo.

Gorchmynion Cyfeirio

11.2 Fel y trafodir yn yr adran flaenorol, ceidw'r YOT ddyletswydd statudol i weithredu'r gorchymyn cyfeirio ac i wneud trefniadau ar gyfer goruchwylio ymgysylltiad neu ymwrthodiad y person ifanc â thelerau contract y gorchymyn cyfeirio. Gwrandewir ar unrhyw achos o dramgwyddo yn y Llys Ieuenctid os yw'r person ifanc dan 18 oed, ac yn y Llys Ynadon os yw'n 18 neu'n hŷn (Rhan III, Deddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000).

Gorchmynion Adsefydlu Ieuenctid

11.3 Os oes person ifanc wedi methu â chydymffurfio â gorchymyn adsefydlu ieuenctid (YRO), gellir eu gwyso neu gellir codi gwarant i'w arestio, a fydd yn eu cyfarwyddo i ymddangos gerbron y llys priodol. Os mai'r Llys y Goron wnaeth bennu'r YRO gwreiddiol, gwrandewir ar yr achos tramgwyddo yno, oni fod Llys y Goron wedi gwneud cyfarwyddyd bod unrhyw achosion pellach sy'n ymwneud â'r YRO i gael eu gwrando yn y llys Ieuenctid neu'r llys Ynadon (para. 5 Atodiad 2, Deddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008). Yn y sefyllfa honno, os yw'r person ifanc dan 18 oed, y llys priodol yw'r Llys Ieuenctid ac os yw'n 18 oed neu drosodd, y Llys Ynadon (para. 5 Atodiad 2, CJIA 2008).

Gorchmynion Cadw a Hyfforddi

11.4 Mae Adran 104 o Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000 yn darparu ar gyfer pwerau llys am dramgwyddo gorchmynion cadw a hyfforddi (DTOs). Ni ellir ond dwyn achosion tramgwyddo o safbwynt DTOs gerbron Llys Ieuenctid (a. 104(2)), gyda hawl i apelio i'r Llys y Goron o safbwynt unrhyw orchymyn a wnaed lle bo'r llys yn fodlon y cafwyd methiant i gydymffurfio â gofynion goruchwylio.

Adran 90/91

11.5 Lle bo person ifanc yn treulio dedfryd a.91 sy'n llai na 12 mis, a'i bod yn ymddangos eu bod wedi methu â chydymffurfio ag un o ofynion yr oruchwyliaeth, gellir eu gwyso neu gellir codi gwarant i'w harestio, gan eu cyfarwyddo i ymddangos gerbron y llys priodol. Os yw'r person ifanc dan 18 oed, y llys priodol yw'r Llys Ieuenctid ac os yw'n 18 oed neu drosodd, y Llys Ynadon (a. 256C o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003). Gellir hefyd adalw rhai a ryddhawyd ar drwydded, fodd bynnag, mae hon yn broses ar wahân.

12. Ystyriaethau Eraill o safbwynt Trefniadau Trosglwyddo

12.1 Ceir nifer o ffactorau y dylid eu hystyried i sicrhau bod gwasanaeth effeithiol yn cael ei gyflenwi i oedolion ifanc. Mae'r 'Effective Approaches with Young Adults: A Guide for Probation Services[26]', a gynhyrchwyd gan Clinks mewn cydweithrediad â'r Cynghrair Transition to Adulthood (T2A), yn darparu arweiniad defnyddiol i helpu ymarferwyr, ac mae'n cynnwys ffocws ar faterion penodol sy'n wynebu oedolion ifanc. Mae'r rhain yn cynnwys aeddfedrwydd, anghenion iechyd a datblygu sgiliau bywyd, ochr yn ochr ag ystyriaethau ynglŷn â sut i deilwra gwasanaethau i grwpiau penodol o oedolion ifanc megis menywod, pobl o darddiad Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME), pobl ag anableddau a phobl ifanc sy'n gadael gofal.

12.2 Dylai'r ffactorau sy'n cael eu hamlygu yn y ddogfen gan Clinks bob amser gael eu hystyried fel rhan o'r gwaith pontio safonol. Dylai ymarferwyr hefyd fod yn ymwybodol o'r meysydd ffocws canlynol wrth weithio â phobl ifanc.

Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a Dull Gweithredu sy'n Ystyriol o Drawma

12.3 Mae corff cynyddol o dystiolaeth i'w gael sy'n dangos bod profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs)[27] yn gallu cael effaith aruthrol ar iechyd a llesiant gydol oes a'u bod yn gallu arwain at ganlyniadau negyddol megis troi at droseddu. Dengys ymchwil gan Iechyd Cyhoeddus Cymru [28] fod rhai sydd â phedwar neu ragor ACE 15 gwaith yn fwy tebygol o fod yn dreisgar tuag at rywun arall ac 20 gwaith yn fwy tebygol o gael eu carcharu.

12.4 Bydd llawer o unigolion sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol wedi wynebu amryfal drawmâu a bydd ganddynt yn ogystal amrywiol anghenion cymhleth, sy'n rhyng-gysylltu â'i gilydd ac yn cynyddu'r tebygolrwydd y caiff eu gwendidau eu mynegi drwy ymddygiad troseddol. Mae'r anghenion hyn yn aml wedi'u gwreiddio mewn cysylltiad cynnar ag ACEs ac maent yn cael eu cysylltu â tharfiad ar ddatblygiad y plentyn, gan arwain at ymlyniad gwael ac o'r herwydd, anhawster i feithrin perthnasoedd cadarnhaol yn fwy cyffredinol.

12.5 Mae cael cefnogaeth gan aelod o'r teulu neu oedolyn arall y mae'r sawl yn ymddiried ynddo, a chyfranogi mewn gweithgareddau cymunedol ystyrlon yn rheolaidd yn gallu helpu i feithrin gwydnwch a lliniaru effaith ACEs. Mae gan y bobl sy'n gweithio yn y system gyfiawnder felly ran allweddol i leihau'r niweidiau

---

[26] Transition to Adulthood Alliance/Clinks (2015) *Effective Approaches with Young Adults: A guide for probation services* https://d7.clinks.org/resources-guides-toolkits/effective-approaches-young-adults-guide-probation-services

[27] Mae ACEs personol yn cynnwys camdriniaeth lafar, gorfforol, rywiol ac esgeulustod ac ACEs teuluol: trais domestig, rhieni'n gwahanu, salwch meddwl rhieni, rhieni yn camddefnyddio alcohol, rhieni yn camddefnyddio cyffuriau a rhieni yn y carchar.

[28] Iechyd Cyhoeddus Cymru (2015) *Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod* Caerdydd: Iechyd Cyhoeddus Cymru

sy'n gysylltiedig ag ACEs ymysg y rheini maent yn gweithio â nhw. Dylai ymarferwyr weithio mewn ffordd sy'n ystyriol o drawma, gan gynnwys:

- Gweithredu mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn er mwyn deall effaith trawma'r gorffennol (a gafwyd yn ystod plentyndod neu'n ddiweddarach mewn bywyd) ar ymddygiad troseddol a phatrymau meddwl yr unigolyn.
- Cael dealltwriaeth o sut gallai profiad unigolyn o drawma effeithio ar y ffordd mae'n ymgysylltu â'i weithwyr ac ag ymyraethau, a defnyddio'r wybodaeth hon i helpu i lywio'r broses o flaenoriaethu ymyraethau a chymorth, a'u cyflwyno yn y drefn sy'n cyd-fynd orau â gallu emosiynol, cymdeithasol a gwybyddol yr unigolyn er mwyn iddo ef/hi allu ymgysylltu mewn ffordd ystyrlon.
- Cael dealltwriaeth o sut gall trawma ymddangos mewn ffyrdd gwahanol yn ddibynnol ar brofiad unigryw'r unigolyn a'r ffactorau gwydnwch a gwarchodol sydd ar gael iddynt, yn ogystal â ffactorau eraill megis eu lefel aeddfedrwydd a'u hanghenion dysgu.
- Cydnabod y gallu i oresgyn adfyd ac adnabod ffynonellau allweddol gwytnwch a bod yn gallu eu hybu, a deall bod llawer o'r rhain wedi'u gwreiddio yn y gymuned leol.

12.6 Mae'r dull Rheoli Achosion Uwch (ECM) wedi bod yn datblygu ar draws Cymru er 2013. Mae'n debygol bod rhai unigolion sy'n trosglwyddo i oruchwyliaeth dan y gwasanaethau oedolion wedi cael sylw drwy ddefnyddio'r dull ystyriol o drawma hwn. Gallai gwybodaeth a gesglir drwy'r ECM fod yn berthnasol i ddeall cefndir ac amgylchiadau unigolion ac i'r ffordd yr ymdrinnir â'r trosglwyddo.

12.7 Yn Atodiad D[29] ceir offeryn i helpu ymarferwyr i fabwysiadu dull ystyriol o drawma i gefnogi pobl ifanc sy'n pontio o wasanaethau ieuenctid i wasanaethau oedolion.

Pobl ifanc sy'n gadael gofal

12.8 Mae profiadau cyffredin trawma, byw mewn sefydliadau neu ofal maeth, a diffyg cefnogaeth neu gefnogaeth wael gan deuluoedd yn gallu cyflwyno heriau penodol i rai sy'n gadael gofal wrth iddynt bontio i fyd oedolion. Maent yn fwy tebygol o fod yn ceisio byw'n annibynnol yn llawer iau ac yn llai tebygol o fod mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth o'i gymharu ag oedolion ifanc eraill. Fodd bynnag, mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd statudol i ddarparu cymorth ymarferol ac ariannol, ac mae'n bwysig bod darparwyr prawf yn adnabod pobl ifanc sy'n gadael gofal er mwyn galluogi iddynt gael y gefnogaeth y mae ganddynt yr hawl i'w chael.

12.9 Dylai ymarferwyr weithio mewn ffordd sy'n ystyriol o drawma wrth weithio ag oedolyn ifanc sy'n cael ei adnabod fel un sy'n gadael gofal. Gallai ymarfer effeithiol gynnwys:

- Adnabod pobl ifanc sy'n gadael gofal a sicrhau bod yr awdurdodau lleol cyfrifol yn rhan o'r prosesau cynllunio fel y bo'n briodol (gall unigolion fod yn amharod i ddweud bod ganddynt brofiad o fod mewn gofal)

---

[29] Cafodd y Gwerthoedd, Egwyddorion Ystyriol o Drawma ac Ystyriaethau wrth Ymarfer: Pontio o Wasanaethau Ieuenctid i Wasanaethau Oedolion eu datblygu yn dilyn gweithdy ar y cyd gan YJB Cymru, HMPPS yng Nghymru Rhaglen Camau Cynnar Gyda'n Gilydd yr Heddlu a Phartneriaid Profiadau Niweidiol Plentyndod Cenedlaethol, ac mae'n canolbwyntio ar edrych drwy lygad ACE ar y broses bontio hon.

- Cydlynu gwasanaethau cofleidiol yn effeithiol
- Darparu cyfleoedd i fyfyrio a datblygu sgiliau, cryfderau a diddordebau
- Eu hannog i feithrin cysylltiadau cymdeithasol cadarnhaol
- Meithrin perthynas waith effeithiol â'r awdurdodau lleol cyfrifol
- Nodi unrhyw gefnogaeth ychwanegol a fydd yn angenrheidiol i roi sylw i'r anghenion sy'n gysylltiedig â'r trawma
- Galluogi pobl ifanc sy'n gadael gofal i gael lle i rannu eu profiadau o fod mewn gofal yn ddiogel, e.e. grwpiau cymorth sy'n cael eu hwyluso'n ofalus

Gwaith â Dioddefwyr

12.10 Mae llawer o bobl ifanc hefyd yn ddioddefwyr troseddu. Dengys gwaith ymchwil, os na fydd y trawma a wynebodd person ifanc yn cael sylw, fe allant droi at droseddu. Mae hyn yn amlygu'r angen i sicrhau bod gwaith i roi sylw i drawma yn cael ei wneud ac yn parhau, os oes angen, ar ôl pontio ymlaen i'r NPS.

12.11 Mae'r trefniadau comisiynu cyfredol ar gyfer gwaith â dioddefwyr ifanc yn golygu bod gwasanaethau ar wahân i'w cael ar gyfer rhai dan 18 a rhai dros 18 oed. Bydd angen i'r protocol lleol roi manylion sut caiff y gwaith â dioddefwyr ei reoli felly yn y trefniadau pontio.

Achosion MAPPA

12.12 Os caiff person ifanc ei reoli gan MAPPA ar Lefel 2 neu uwch, dylid dechrau ystyried y trefniadau ar gyfer ei drosglwyddo o leiaf chwe mis cyn eu pen-blwydd yn 18.

12.13 Dylai rheolwyr troseddwyr prawf bob amser wahodd un o gynrychiolwyr y YOT i fynychu cyfarfodydd lefel 2/3 MAPPA, ar gyfer oedolion ifanc sy'n achosion newydd ac yn 18-21 oed, os bu'r YOT yn goruchwylio'r achos yn y gorffennol. Dylid gwahodd y cynrychiolydd YOT hefyd i gyfarfodydd MAPPA dilynol. Os nad oes modd iddo/iddi fynychu'n bersonol, efallai y byddai'r YOT yn dymuno ystyried cyflwyniad ysgrifenedig fan leiaf.

12.14 Bydd angen gwneud penderfyniad lleol am oblygiadau hyn ar adnoddau ac a yw cyflwyniadau ysgrifenedig/presenoldeb YOT yn orfodol.

Merched a Menywod Ifanc

12.15 Yn unol ag argymhellion Adroddiad Corston (2007), mae anghenion menywod yn y system cyfiawnder ieuenctid yn wahanol i anghenion dynion, a dylai'r trefniadau pontio felly roi ystyriaeth i hynny.

12.16 Mae menywod ifanc sydd wedi troseddu yn tueddu i fod wedi profi lefelau uchel o drais yn y cartref, cam-drin rhywiol, hanes mewn gofal, diffyg addysg, problemau iechyd meddwl, hunanddelwedd wael a hunan-niweidio. Mae perthnasoedd a bod yn rhiant yn fwy tebygol o fod yn gysylltiedig â'u hymddygiad troseddol, yn ogystal â chyfraddau uwch o orfodaeth. Gall anghenion tai cynyddol hefyd fod yn bresennol, gan fod menywod ifanc yn aml yn brif ofalwyr i blant, a gall fod yn anos dod o hyd i lety diogel, yn enwedig os ydynt angen llety i fenywod yn unig[30].

12.17 Dylai asesiadau a chyfarfodydd tair ffordd gyda'r person ifanc, y YOT a rheolwr achosion y NPS felly ystyried y nodweddion hyn. Hefyd, efallai y bydd ardaloedd

---

[30] Transition to Adulthood Alliance/Clinks (2015) *Effective Approaches with Young Adults: A guide for probation services* https://d7.clinks.org/resources-guides-toolkits/effective-approaches-young-adults-guide-probation-services

eisiau ystyried amgylcheddau i fenywod yn unig a dyrannu rheolwr troseddwyr benyw fel ffactorau a allai effeithio ar eu profiad o oruchwyliaeth.

12.18 Mewn rhai ardaloedd sefydlwyd Cynadleddau Achos Braenaru Aml-asiantaeth i Fenywod i ddarparu dull cyfannol o fodloni anghenion menywod yn y system gyfiawnder a'r rhai sydd mewn perygl o droseddu. Argymhellir bod menywod ifanc sy'n pontio oddi wrth wasanaethau YOT i wasanaethau oedolion yn cael eu cyfeirio i gynadleddau achos, os ydynt ar gael yn lleol, er mwyn elwa o gymorth cydlynus a thrafodaeth aml-asiantaeth sy'n ymatebol i'w rhyw.

12.19 Gellir trafod cyfeiriadau â naill ai Cydlynydd Integreiddio Partneriaethau Uned Gyflawni'r Gwasanaeth Prawf (PDU) neu Arweinydd Menywod yr Uwch Swyddogion Prawf (USP) a dylai ddigwydd oddeutu chwe mis cyn y pontio er mwyn caniatáu amser digonol i gynllunio'n effeithiol.

Holl Achosion Newydd y NPS 18 – 25

12.18 Ni fydd pob oedolyn ifanc sy'n agored i'r NPS yn mynd drwy broses bontio ffurfiol, a dylai'r NPS felly wneud ceisiadau am wybodaeth i'r YOT perthnasol dan amgylchiadau o'r fath. Dylid gwneud y cais hwn am wybodaeth cyn pen wythnos gyntaf y ddedfryd a gall gynnwys (ond nid yw'n gyfyngedig i): asesiadau blaenorol, ffactorau risg, dyfarniadau ynglŷn â diogelwch a llesiant a digwyddiadau pwysig. Os ysgrifennwyd adroddiad cyn dedfrydu, dylai'r wybodaeth hon fod wedi cael ei cheisio eisoes. Bydd y YOT yn defnyddio'r broses gymeradwy ar gyfer rhannu gwybodaeth a'r gronfa ddata wrth ymateb i geisiadau am wybodaeth gan wasanaethau prawf.

Trosglwyddo i'r NPS y tu allan i ardal leol

12.19 Os oes angen i berson ifanc drosglwyddo'r tu allan i'r ardal NPS lle cawsant eu goruchwylio, mae'n bosibl na fydd modd trefnu'r cyfarfod â'r tri gweithiwr proffesiynol aml-asiantaeth y cyfeirir ato yn gynharach (gweler adran 8.3.14). Dylai egwyddorion pontio da fod yn weithredol o hyd fodd bynnag (gweler tudalen 5).

12.20 Dylai swyddog prawf y YOT sydd ar secondiad gwblhau'r offeryn Risg o Aildroseddu Difrifol (RSR) i lywio'r argymhelliad i drosglwyddo i'r NPS. Yn absenoldeb y swyddog prawf YOT, disgwylir i'r RSR gael ei gwblhau gan y swyddog prawf arweiniol yn y NPS yn yr ardal drosglwyddo er mwyn sicrhau na cheir dim oedi a bod gwybodaeth am y person ifanc yn cael ei rhannu'n brydlon.

13. Anghydfodau a phrosesau datrys

13.1 Bydd yr holl asiantaethau a enwir yn 1.1 yn gweithio â'i gilydd i sicrhau bod y broses bontio'n cael ei dilyn a bod anghenion y person ifanc yn cael eu bodloni.

13.2 Dylai'r YOT a'r NPS gyfeirio at Ganllawiau Rheoli Achosion y YJB i sicrhau bod y penderfyniadau gorau'n cael eu gwneud i'r unigolyn. Mae'n bosibl y ceir rhai achosion, pan fo amgylchiadau penodol yn golygu nad yw'n briodol trosglwyddo person ifanc i wasanaethau prawf. Fodd bynnag, barn broffesiynol ddylai arwain y penderfyniadau, a hynny dan arweiniad y camau sy'n angenrheidiol i hybu diogelwch a lles y person ifanc a budd gorau'r cyhoedd.

13.3 Os nad yw'r NPS yn cytuno â'r argymhelliad a wna'r YOT fel yr amlinellir yn 9.2.3, dylid cynnal cyfarfod rhwng y YOT a'r NPS i adolygu dyraniad yr achos ac i wneud penderfyniad i drosglwyddo'r achos i ddarparwyr prawf oedolion neu ei gadw gyda'r YOT. Dylai anghydfodau ynglŷn ag achosion pontio na ellir eu datrys gael eu codi ar lefel rheolwyr.[31] Disgwylir y bydd unrhyw benderfyniad i ailddyrannu yn cael ei wneud ar lefel rheolwyr.

[31] Gweler Atodiad A – Ffrâm Pontio o Wasanaethau Ieuenctid i Wasanaethau Oedolion 2017: Map o'r Broses

14. Llofnodwyr

14.1 Mae'r llofnodwyr yn cytuno i weithredu darpariaethau Egwyddorion a Chanllawiau ar gyfer Pontio o Wasanaethau Ieuenctid i Wasanaethau Oedolion (Cymru).

Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid:

Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid	Printiwch eich enw	Llofnod	Dyddiad
	Colin Allars		04/08/20

Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol:

Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol	Printiwch eich enw	Llofnod	Dyddiad
	Nic Davies		04/08/20

Rheolwyr Timau Troseddau Ieuenctid Cymru:

Rheolwyr YOT Cymru	Printiwch eich enw	Llofnod	Dyddiad
	Gill Adams		04/08/20

Atodiad A


Fframwaith Pontio o Wasanaethau Ieuenctid i Wasanaethau Oedolion 2020: Map o'r Broses
Ffigwr 1
Adeg dedfrydu
Gwirio oedran y person ifanc ac ystyried a fydd angen pontio i wasanaethau oedolion. Cynnwys y manylion yn y cynllun dedfryd
Y gymuned
Mae'r person ifanc dan 18 oed ac mae'n cael ei ddedfrydu/ei roi ar remand gan y Llys
Y ddalfa
YOT yn hysbysu'r gwasanaethau lleoliadau o'r penderfyniad i'w roi yn y ddalfa ac yn anfon asesiadau / dogfennau'r person ifanc
Ystyried y math o orchymyn a'i hyd er mwyn gallu cynllunio'r pwynt hanner ffordd ar gyfer ei ddirymu'n fuan os yw'n addas
Gwasanaeth Lleoliadau YCS yn penderfynu ar y lleoliad a chaiff y gweithiwr YOT ei hysbysu
17 mlwydd a 6 mis
YOT yn gweithio gyda'r person ifanc a'i deulu / gofalwr i egluro'r broses bontio
Datganiad Pontio o Wasanaethau Ieuenctid i Wasanaethau Oedolion
Amcan cyffredinol y protocol hwn a'r amcan sydd y tu ôl i broses bontio effeithiol yw bod yn rhaid ei rheoli mewn ffordd ddiogel er mwyn y person ifanc a'r gymuned. Yn sail i'r protocol hwn ceir Datganiad Pontio:
'Rhaid i drefniadau pontio llwyddiannus o wasanaethau ieuenctid i wasanaethau oedolion ganolbwyntio ar:
Roi sylw i anghenion unigol a gofynion diogelu'r person ifanc / oedolyn ifanc;
Trosglwyddo'r cyfrifoldeb dros reoli achosion rhwng asiantaethau yn effeithiol;
Sefydlu llwybr adsefydlu sefydlog;
Cynnal ymyraethau a chyflawniadau adsefydlu;
Gwarchod y cyhoedd ac atal aildroseddu i'r dyfodol'
YOT yn hysbysu'r person ifanc a'i deulu / gofalwr o'r penderfyniad lleoli ac yn gweld a fydd angen iddo ef/hi bontio yn ystod y ddedfryd
Creu cynllun pontio fel rhan o'r cynllun rheoli dedfryd
Gwasanaeth Lleoliadau YCS yn hysbysu'r YOT, STC neu'r SCH yn ysgrifenedig os bydd angen iddo ef/hi bontio yn ystod y ddedfryd
Yn y cyfarfod cynllunio cychwynnol, dechrau cynllunio ar gyfer proses bontio'r person ifanc, gan ystyried anghenion y person ifanc ynghyd â'r gwasanaethau YOT a'r gwasanaethau arbenigol y bydd angen eu trosglwyddo
Ai mewn STC, SCH neu YOI y lleolir y person ifanc?
Y llys yn adolygu achos y person ifanc i gymeradwyo / anghymeradwyo'r cais i ddirymu'n gynnar
Yn addas i'w ddirymu'n gynnar
Lle bo'n briodol, gwneud cais i ddirymu gorchymyn y person ifanc yn gynnar
Lleoli'r person ifanc mewn STC neu SCH – gweler tud 2: Ffig
Anghymeradwyo'r cais i ddirymu'n gynnar
YOT yn gwneud penderfyniad i gadw achos y person ifanc
Bydd YOT yn adolygu'r gorchymyn ac yn nodi a fydd y person ifanc yn aros gyda'r YOT neu'n argymell ei drosglwyddo i'r Gwasanaeth Prawf
YOT yn gweithio â'r Swyddog Prawf i gwblhau asesiad Risg o Aildroseddu Difrifol (RSR) i gynorthwyo i ddyrannu rheolwr troseddwyr priodol o fewn NPS
YOT yn dilyn proses bontio gymunedol er mwyn dechrau proses bontio i'r NPS
*gweler y protocol pontio ar y cyd
Lleoli'r person ifanc mewn YOI – Gweler tud 2: Ffigwr 4
17 mlwydd a 9 mis
YOT yn cofnodi'r penderfyniad ar gofnod y person ifanc ac yn nodi'r rheswm am y penderfyniad
Trosglwyddir achos y person ifanc i'r NPS
NPS yn adolygu'r argymhelliad ac yn dyrannu rheolwr troseddwyr priodol o'r GPC
Bydd YOT yn hysbysu'r person ifanc a'i deulu o'r penderfyniad a wnaed i gadw'r achos
Gweler tud 2: Ffigwr 2
Os yw ar gael, mae'r YOT yn creu cofnod o'r penderfyniad i'w gadw ar borthol rhannu gwybodaeth cymeradwy
Gweler tud. 2 am Ffigyrau 2, 3 a
Egwyddorion Allweddol Trefniadau Pontio Da
Bydd anghenion yr unigolyn a'r gofynion diogelwch yn cael eu cydnabod ac yn cael sylw
Bydd pobl ifanc sy'n gymwys i drosglwyddo yn cael eu hadnabod a'u dyrannu i staff cyfiawnder troseddol cyn gynted â phosibl
Rhaid i bob person a allai drosglwyddo i wasanaethau oedolion gael cynllun pontio
Rhaid i'r gwaith o gynllunio'r pontio ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau hyblyg a pharhaus sydd wedi'u teilwra i fodloni anghenion yr unigolyn
Rhaid i wybodaeth berthnasol am bobl ifanc gael ei rhannu rhwng y gwasanaethau ieuenctid a'r gwasanaethau oedolion cyn trosglwyddo
Bydd y gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid ac oedolion yn gweithio â'i gilydd i gael canlyniadau trosglwyddo effeithiol, gan gynnwys cynnal ymyraethau a chynnydd
Bydd pobl ifanc a'u teuluoedd yn cael eu cynnwys yn gwaith o gynllunio ar gyfer y pontio ac yn deall ac yn cytuno â'r cynlluniau sydd ar waith
Caiff pob achos sy'n pontio ei adolygu a bydd gwasanaethau'n ceisio gwella'n barhaus, gan hwyluso'r siwrnai at ddyfodol cadarnhaol ac ymataliad rhag troseddu, gan adeiladu ar sgiliau, cryfderau a diddordebau

Ffigwr 2 – Pontio i'r NPS



Mae Goruchwyliaeth Estynedig DTO yn ofynnol dan Adran 256AA o Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 2014 os yw'r person ifanc yn troi'n 18 oed cyn pwynt hanner ffordd o ddedfryd sy'n llai na 24 mis o hyd. Mae'r cyfnod goruchwyliaeth estynedig yn dechrau ar ddiwedd y ddedfryd a daw'r cyfnod goruchwyliaeth estynedig i ben ar ddiwedd deuddeg mis o ganolbwynt y ddedfryd. Nid yw'r cyfnod goruchwyliaeth estynedig yn berthnasol i bobl ifanc sy'n troi'n 18 oed ar ôl canolbwynt y DTO wrth dreulio elfen gymunedol y ddedfryd.

Ffigwr 3 – Pontio o STC / SCH



Ffig 4 – Pontio o YOI dan 18



Os yw'r person ifanc ar remand neu wedi'i ddedfrydu a bod gofyn iddo ddod yn ôl i'r llys, NI ddylai bontio'n uniongyrchol i'r Ystâd Oedolion o'r Llys.

Dylid bod gan y person ifanc gynllun pontio sy'n nodi y bydd yn dychwelyd i sefydliad dan 18 ac yna'n cael ei symud ar draws i'r ystâd oedolion gan ddilyn y broses bontio.

Byrfoddau

DTO – Gorchymyn Cadw a Hyfforddi
HMPPS – Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi
NPS – Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
PMU – Uned Rheoli'r Boblogaeth
SCH – Cartref Plant Diogel
STC – Canolfan Hyfforddi Ddiogel
YCS – Gwasanaeth y Ddalfa Ieuenctid
YJB – Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid
YOI – Sefydliad Troseddwyr Ifanc
YOT – Tîm Troseddau Ieuenctid
PI – Person Ifanc

Rôl rheolwr troseddwyr sy'n pontio o wasanaethau ieuenctid i wasanaethau oedolion (Y2A)

Mae rôl y rheolwr troseddwyr pontio Y2A yn lleoli'r cyfnod pontio gydag un ymarferydd sy'n rhychwantu'r gwasanaethau ieuenctid a'r gwasanaethau oedolion gan sicrhau na chaiff dim ei fethu mewn proses drosglwyddo yn ystod yr amser hanfodol hwn. Mae'r rôl arbenigol hon yn cefnogi pobl/oedolion ifanc sy'n pontio o'r YOT i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, drwy rychwantu'r ddau wasanaeth, gan reoli'r broses bontio'n effeithiol ac effeithlon a'u galluogi i roi cefnogaeth gyson a darparu dilyniant i'r berthynas â'r oedolyn ifanc yn ogystal â chymhelliant i'w hannog i ymgysylltu.

Mae rheolwr troseddwyr sy'n pontio rhwng 2 wasanaeth yn rheoli pob achos pontio sy'n dechrau o fewn y YOT ac sy'n parhau i'r tîm IOM lleol. Mae'r trefniant hwn yn darparu dilyniant yn y berthynas â'r person ifanc/oedolyn ac yn galluogi i achosion gael eu trosglwyddo'n ddidrafferth o safbwynt rhannu gwybodaeth, asesu a rheoli risgiau ac, yn holl bwysig, parhad yr holl ymyraethau perthnasol. Gellir parhau â'r ymyraethau o fewn y YOT, os yn briodol, neu o fewn darpariaeth cymorth y system cyfiawnder oedolion i leihau llwybrau aildroseddu.

Mae rôl rheolwr troseddwyr sy'n pontio yn gofyn am wahanol lefelau o adnoddau yn unol ag anghenion lleol a daearyddol amrywiol. Mewn ardaloedd mwy trefol, oherwydd nifer yr achosion pontio, mae'n bosibl y bydd angen adnodd amser llawn, fodd bynnag, disgwylir y bydd llai o alw mewn ardaloedd mwy gwledig o bosibl. Ni fydd rôl rheolwr troseddwyr sy'n pontio bob amser yn swydd annibynnol, ond fe allai fod yn rhan o rôl rheolwr troseddwyr y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol sydd ar secondiad i'r YOT. Caiff hyn ei adlewyrchu yn yr amser y mae'r aelod staff hwnnw'n yn ei neilltuo rhwng y YOT a'r gwasanaeth Prawf. Mae rôl y rheolwr troseddwyr pontio yn arwydd o fel mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol wedi newid ffocws ei adnoddau, gyda'r nod o ddefnyddio'r trefniadau presennol i'r eithaf a'u gwella.

Dylai trefniadau pontio Y2A lleol yng Nghymru felly adlewyrchu'r canllawiau a'r egwyddorion y cytunwyd arnynt ynglŷn â throsglwyddo'r holl achosion i dimau IOM Cymru lleol gyda rheolwr troseddwyr pontio Y2A y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn cadw'r achos lle bynnag y bo'r trefniant hwn ar waith.

Atodiad C

Arweiniad Cam wrth Gam i Bontio Y2A (gan gynnwys pontio i dimau IOM)

Cam 1: Y broses gychwynnol o adnabod a hysbysu achosion trosglwyddo (17 mlwydd 6 mis)
Cynnal cyfarfod cyn trosglwyddo cychwynnol i adnabod, cofnodi a hysbysu'r NPS o'r achosion pontio posibl, ar sail hyd dedfrydau.
Dylid bod peirianwaith cofnodi clir ar waith yn y YOT sy'n caniatáu mynediad hawdd i restr "fyw" o achosion pontio posibl er mwyn gallu cadw golwg ar y cynnydd.
Os aseswyd bod un o'r achosion pontio yn peri risg uchel o niwed neu ei fod yn addas am MAPPA, dylai rheolwr troseddwyr y NPS sydd ar secondiad gwblhau'r sgôr Risg o Aildroseddu Difrifol (RSR) ar y person ifanc yn y cam hwn. Os asesir nad yw'r person ifanc yn peri risg uchel o niwed nac yn addas am MAPPA, gellir cwblhau'r sgôr RSR pan mae'n 17 mlwydd a 9 mis oed.
Gan ddefnyddio'r sgôr RSR fel arwydd cychwynnol, dylai'r rheolwr troseddwyr sydd ar secondiad o'r NPS gysylltu â rheolwr tîm IOM y NPS gydag enw a dyddiad geni'r person ifanc ynghyd ag enw ei reolwr achos yn y YOT i roi gwybod i'r rheolwr perthnasol bod angen i'r person ifanc gael ei ddyrannu i'r NPS.
Dylai rheolwr tîm IOM y NPS ddyrannu'r achos i reolwr troseddwyr Y2A (lle bo hynny'n bosibl), a dylai ef/hi wedyn gysylltu â rheolwr achos perthnasol yn y YOT cyn pen pum diwrnod gwaith i drefnu'r cyfarfod tair ffordd cyntaf yn y YOT.
Dylai rheolwr troseddwyr y NPS sydd ar secondiad/gweinyddwr Y2A y NPS greu pob achos sydd o fewn cwmpas i bontio yn n-Delius, a dilyn y broses fel a nodir yn CRI 025 yn ystod y pontio (gan gynnwys cofnodi'r achosion hynny y penderfynir peidio â'u trosglwyddo).
Cam 2: Dechrau'r broses bontio (17 mlwydd 9 mis)
Dylid cynnal cyfarfodydd rheolaidd rhwng YOT a'r NPS er mwyn cadarnhau'r achosion a fydd yn pontio yn amserol. Dylid rhoi ystyriaeth i'r egwyddorion, y canllawiau a'r ystyriaethau ychwanegol a amlinellir yn y ddogfen hon.
Mae rheolwr achosion y YOT a rheolwr troseddwyr dyranedig y NPS yn cyfarfod i drafod y person ifanc, i gytuno ar y trosglwyddo ac i lunio cynllun pontio. Gallai'r cyfarfod hwn fod gyda gweithiwr pontio arbenigol. Ar yr adeg hon, dylid dod i gytundeb ar gyfer trosglwyddo'r achos yn raddol; gallai hyn gynnwys cydweithio dros amser y cytunwyd arno yn ddibynnol ar anghenion y person ifanc a'i deulu a dyddiad y trosglwyddo terfynol.
Dylai fod gan y YOT a'r NPS gofnodion clir, archwiliadwy o'r penderfyniadau a'r camau pontio ynghyd â goruchwyliaeth effeithiol ar lefel rheolwr.
Dylai rheolwr achosion YOT sicrhau bod yr holl asesiadau, y cynlluniau a'r wybodaeth berthnasol arall yn ddiweddar wrth baratoi am y pontio.
Mae rheolwr achosion y YOT yn hysbysu'r swyddog dioddefwyr o'r trosglwyddo arfaethedig (lle bo hynny'n berthnasol).
Dylai rheolwr achosion YOT gysylltu â gweithwyr proffesiynol eraill i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r cynllun pontio a'u bod wedi ymrwymo iddo; gallai hyn fod drwy gyfarfodydd aml-asiantaeth sy'n bodoli eisoes neu drwy eu gwahodd i gyfarfodydd pontio penodol.
Cam 3: Paratoi'r person ifanc am y pontio

Dylai'r gweithiwr achosion YOT, y rheolwr troseddwyr oedolion a'r person ifanc gyfarfod i gyflwyno'r person ifanc a lle bo'n berthnasol ei deulu/gofalwr/oedolyn(oedolion) arwyddocaol i'r broses bontio. Gwneir hyn i sicrhau eu bod yn deall ac yn ymgysylltu ac er mwyn creu'r cynllun pontio ar y cyd. Dylid ailadrodd hyn yn ôl y gofyn fel rhan o'r cynllun pontio.
Dylid cynnal cyfarfodydd aml-asiantaeth yn rheolaidd i drafod a monitro cynnydd y pontio (cyfarfod pontio penodol neu fel rhan o'r cyfarfodydd presennol).
Dylid cynnal ymweliad cartref ar y cyd gyda rheolwr achosion YOT a rheolwr troseddwyr y NPS. Os nad yw hyn yn bosibl, fan leiaf, dylai rheolwr troseddwyr y NPS gysylltu â'r rhiant/gofalwr dros y ffôn i egluro'r broses bontio wrthynt.
Dylid hysbysu'r person ifanc o'i ddyddiad pontio a dylid cynnal apwyntiad terfynol â'r YOT.
Cam 4: Ymgysylltu â rhwydwaith cymorth y person ifanc
Lle bo hynny'n bosibl, dylai rheolwr troseddwyr y NPS a rheolwr achosion y YOT fynychu unrhyw adolygiadau cynllunio achosion aml-asiantaeth sy'n ymwneud â'r person ifanc, gan gynnwys ar gyfer rhai sydd yn y ddalfa, yn ystod y cyfnod pontio fel y cytunwyd yn y cynllun pontio.
Mae angen uwchgyfeirio bylchau neu rwystrau rhag cael mynediad i wasanaethau priodol drwy'r sianelau priodol (er enghraifft Bwrdd rheoli'r YOT neu grwpiau rhanbarthol IOM Cymru).
Cam 5: Paratoi i drosglwyddo achos i'r tîm IOM
Mis cyn y dyddiad trosglwyddo, dylai'r YOT gyfeirio'r achos at banel dethol aml-asiantaeth yr IOM (oni bai eu bod yn pontio'n awtomatig i'r tîm IOM, os felly, dylai rheolwr tîm y NPS hysbysu'r Heddlu bod yr achos wedi cael ei ddethol).
Dylai'r holl asesiadau, y cynlluniau a'r holl wybodaeth berthnasol arall gael eu hadolygu a'u derbyn gan y rheolwr YOT priodol. Dylai'r holl wybodaeth berthnasol gael ei rhannu â'r holl asiantaethau priodol a'i chofnodi ar eu systemau rheoli achosion.
Dwy wythnos cyn y trosglwyddo ffurfiol, dylai rheolwr achosion YOT gysylltu â rheolwr troseddwyr y NPS i gadarnhau'r dyddiad trosglwyddo ac i drefnu cyfarfod sefydlu tair ffordd yn y swyddfa Brawf y bydd gofyn i'r person ifanc adrodd wrthi.
Cam 6: Y trosglwyddo ffurfiol *Bydd hyn yn digwydd ar yr amser y cytunwyd arno yn dilyn pen-blwydd y person ifanc yn 18 oed. Fodd bynnag, ceir rhywfaint o hyblygrwydd ynglŷn â hyn, yn ddibynnol ar yr hyn y mae'r YOT a'r NPS yn ei ystyried sydd er lles y person ifanc.*
Dylai'r NPS dderbyn yr achos sy'n cael ei drosglwyddo'n ffurfiol a chymryd y cyfrifoldeb dros reoli'r achos. Bydd rheolwr y tîm IOM yn dyrannu'r cyfrifoldeb dros reoli'r oedolyn ifanc yn ffurfiol.
Dylai'r achos gael ei gau ar system rheoli achosion y YOT a'i gychwyn ar system rheoli achosion y NPS. Rhaid i wybodaeth gael ei throsglwyddo'n ddiogel.
Mae rheolwr troseddwyr y NPS yn cwblhau cynllun dedfryd cychwynnol, o fewn yr amserlenni priodol, ac yn cynnwys ynddo yr asesiadau, y cynlluniau a gwybodaeth berthnasol arall gan y YOT a phartneriaid eraill.
Cam 7: Adolygu'r Cynllun Dedfryd ac Adborth Defnyddwyr y Gwasanaeth (pedwar mis ar ôl y dyddiad pontio)
Dylai rheolwr troseddwyr y NPS gynnal adolygiad o'r cynllun dedfryd ar ôl pedwar mis gyda'r oedolyn ifanc. Dylai unrhyw gysylltiad â'r teulu/gofalwr/oedolyn(oedolion) arwyddocaol fwydo i'r adolygiad hwn.
Dylai rheolwr troseddwyr y NPS geisio adborth gan ddefnyddwyr y Gwasanaeth am y broses bontio a rhannu'r adborth hwnnw ag arweinydd strategol Y2A y NPS i sicrhau ei fod yn cael ei ystyried pan gaiff y

broses bontio ei hadolygu.

Camau Cynnar gyda'n Gilydd
Early Action Together

Youth Justice Board
Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid

Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM yng Nghymru

HM Prison & Probation Service in Wales

Gwerthoedd, Egwyddorion Ystyriol o Drawma ac Ystyriaethau wrth Ymarfer: Pontio o Wasanaethau Ieuenctid i Wasanaethau Oedolion

Yn y tabl isod ceir offeryn i helpu ymarferwyr i fabwysiadu dull ystyriol o drawma i gefnogi pobl ifanc sy'n pontio o wasanaethau ieuenctid i wasanaethau oedolion. Datblygwyd yr offeryn yn dilyn gweithdy a gynhaliwyd ar y cyd ar gyfer YJB Cymru, HMPPS yng Nghymru a Rhaglen Camau Cynnar Gyda'n Gilydd yr Heddlu a Phartneriaid Profiadau Niweidiol Plentyndod Cenedlaethol, a ganolbwyntiai ar edrych drwy lygad ACE ar y broses bontio hon.

Mae'r offeryn wedi'i greu o amgylch 5 o werthoedd craidd gofal ystyriol o drawma[32]:

1. Dewis
2. Diogelwch
3. Cydweithredu
4. Didwylledd
5. Grymusedd

Dewiswyd y pum gwerth hwn ar sail y wybodaeth sy'n hysbys am ymatebion cyffredin i gamdriniaeth gorfforol, rywiol ac emosiynol (gan gynnwys trawma mechnïol neu eilaidd)[33].

Cafodd y gwerthoedd eu mapio ochr yn ochr ag ystyriaethau wrth ymarfer ac egwyddorion allweddol, a gymerwyd o amrywiol dystiolaeth ymchwil a phrofiad gweithredol sy'n ymwneud ag ymarfer da mewn gofal ystyriol o drawma/pontio o wasanaethau ieuenctid i wasanaethau oedolion.

Gall profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs)[34] gael effaith aruthrol ar les meddwl a gall arwain at amrywiol ganlyniadau negyddol gydol oes. Dengys ymchwil gan Iechyd Cyhoeddus Cymru[35] fod rhai sydd â phedwar neu ragor ACE 15 gwaith yn fwy tebygol o fod yn dreisgar tuag at rywun arall ac 20 gwaith yn

[32] Harris, M., & Fallot, R.D. (2001). *Using Trauma Theory to Design Service Systems*. San Francisco: Jossey-Bass.

[33] Covington, S. (2016). *Becoming Trauma Informed Tool Kit for Women's Community Service Providers*. One Small Thing.

fwy tebygol o gael eu carcharu. Bydd gan lawer o unigolion sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol lawer o anghenion cymhleth ac maent wedi wynebu amryfal drawmâu ac mae hynny'n cynyddu'r tebygolrwydd y caiff eu gwendidau eu mynegi drwy ymddygiad troseddol. Mae'r gwaith ymchwil i achosion o ACEs yn y garfan cyfiawnder ieuenctid yn dal i fynd rhagddo. Fodd bynnag, fe wnaeth ymchwiliad i amgylchiadau cymdeithasol ac achosion ACEs mewn poblogaeth o bobl ifanc a gyfeiriwyd i wasanaethau cyfiawnder ieuenctid ystyriol o drawma (Rheoli Achosion Uwch) ddatgelu, allan o 25 achos, mai'r ACEs mwyaf cyffredin oedd rhieni'n gwahanu, rhieni yn camddefnyddio cyffuriau, trais domestig a phrofiadau o esgeulustod. Mae'n bosibl mai'r nifer uchel hon o ACEs yw'r rheswm am y lefelau uchel o gysylltiadau â'r gwasanaethau plant, a oedd i'w weld mewn pedwar ar hugain (96%) o'r achosion[36].

Caiff y canfyddiadau hyn eu hadleisio yn y garfan cyfiawnder troseddol oedolion, lle canfu arolwg diweddar o ddynion yng Ngharchar Ei Mawrhydi (EM) Parc ym Mhen-y-bont ar Ogwr fod 84% yn dweud eu bod wedi cael o leiaf un ACE (o'i gymharu â ffigur cyfartalog ar gyfer Cymru o 46%, a dywedodd bron hanner y carcharorion (46%) eu bod wedi cael pedwar ACE neu ragor. Bydd llawer o'r unigolion hyn felly yn fregus oherwydd eu bod wedi ddioddef trawma yn ystod eu hieuenctid. Mae'n bwysig sicrhau, pan fo'n bosibl, felly bod dulliau, cymorth ac ymyraethau ystyriol o drawma sy'n ceisio magu gwytnwch yn parhau wrth i'r unigolyn symud ymlaen i wasanaethau oedolion.

---

[34] Mae ACEs personol yn cynnwys camdriniaeth lafar, gorfforol, rywiol ac esgeulustod ac ACEs teuluol/domestig: trais domestig, rhieni'n gwahanu, salwch meddwl rhieni, rhieni yn camddefnyddio alcohol, rhieni yn camddefnyddio cyffuriau a rhieni yn y carchar.

[35] Iechyd Cyhoeddus Cymru (2015) Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod Caerdydd: Iechyd Cyhoeddus Cymru

[36] Adolygiad y YJB Atgyfeiriadau Rheoli Achosion Uwch Medi 2017 – Mai 2018. Ar gael os gwneir cais amdano YJBCymru@yjb.gov.uk

GWERTHOEDD	EGWYDDORION	YSTYRIAETHAU WRTH YMARFER
DEWIS: Pwysleisio dewis yr unigolyn.	Ymgorffori barn y person ifanc	• Grymuso'r person ifanc i wneud dewisiadau cadarnhaol a chwarae rhan weithgar yn y broses bontio. • Rhoi ystyriaeth i farn y person ifanc, rhoi sylw i'w pryderon a thrafod eu disgwyliadau. • Ystyried yr effaith a gaiff cysylltiad hir â thrawma ar ddatblygiad a gweithrediad yr ymennydd, a'r dylanwad posibl y gallai hyn ei gael ar allu person ifanc i brosesu gwybodaeth newydd yn effeithiol, yn enwedig yn ystod cyfnodau o bryder neu straen. Cydnabod y gallai hyn ymddangos mewn nifer o ffyrdd, e.e. datgysylltiad, gwrthdyniad, gorbryder, dicter, ayb, a allai effeithio ar y penderfyniadau a wneir. Holi'r person ifanc yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn deall y wybodaeth a'r dewisiadau allweddol. Lle bo angen, ystyried defnyddio technegau ymdawelu i ddod â'r sawl yn ôl i'r presennol. • Addasu i arddull ymgysylltu'r person ifanc – beth sy'n gweithio orau?
CYDWEITHREDU: Ennyn mewnbwn gan y person ifanc er mwyn gallu meithrin perthynas gydweithredol.	Gweithredu yn unol ag 'anghenion yr unigolyn' – canolbwyntio ar yr unigolyn NID ar broses	• Cynnal asesiad cyfannol i ganfod pa gymorth y mae angen ar y cyd â'r person ifanc. Ystyried ffactorau megis ACEs a phrofiad o drawma, ffactorau gwytnwch a chryfderau, datblygiad o'i gymharu ag oedran, aeddfedrwydd emosiynol o'i gymharu ag aeddfedrwydd corfforol. • Teilwra eich ffordd o ddelio â'r person ifanc, gan roi ystyriaeth i lefelau aeddfedrwydd, iaith, sgiliau dysgu, a ffactorau amrywiaeth eraill. Holi'r person ifanc yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn deall yr hyn a ddywedir wrtho, gan addasu eich dull gweithredu lle bo'n briodol. • Ystyried profiad y person ifanc yn y gorffennol, a cheisio adnabod a lleihau sbardunau posibl. • Hybu cyfleoedd i wella gwytnwch. Gwelwyd bod cymryd rhan mewn chwaraeon yn benodol yn effeithiol i leihau effaith ACEs ar les meddwl gwael. Pa gyfleoedd sydd yna i'r person ifanc fod yn rhan o glybiau/timau chwaraeon lleol, neu weithgareddau cymunedol eraill? Gallai hyn fod yn

		bwysig iawn yn ystod adegau o ansicrwydd/ ansefydlogrwydd megis symud oddi wrth y gwasanaethau ieuenctid cyfarwydd at y gwasanaethau oedolion anghyfarwydd.[37]
	Cynnwys	• Ystyried pwysigrwydd 'oedolion y gall ymddiried ynddynt' i helpu i feithrin gwytnwch a lliniaru effaith trawma mewn pobl ifanc sydd wedi cael ACEs.[38] Trafod â'r person ifanc, pwy yw'r oedolyn y mae'n gallu ymddiried ynddo yn ei fywyd. Cofiwch mai chi o bosibl yw'r oedolyn y mae'r person ifanc yn ymddiried ynddo. Bydd yn bwysig iawn delio'n ofalus â dirwyn y berthynas i ben yn yr achos hwn. • Cynnwys y person ifanc, yr holl asiantaethau perthnasol, gan gynnwys teuluoedd a gofalwyr ac oedolion y mae'n ymddiried ynddynt yn y broses bontio o'r adeg pan ddechreuir cynllunio ar gyfer y pontio. Pwysleisio a chydnabod cryfderau a gwytnwch y person ifanc a sut bydd hyn yn eu helpu drwy'r broses bontio. • Rhannu gwybodaeth ar draws asiantaethau (lle bo'n briodol) er mwyn meithrin dealltwriaeth o brofiadau bywyd cynnar y person ifanc gan gynnwys ACEs a phethau a all ail-sbarduno trawma (os ydynt yn hysbys) a cheisio osgoi gofyn i'r person ifanc ailadrodd ei storïau rhag ailgynnau'r trawma ynddynt. • Cynnal adolygiad cyn pontio gyda'r person ifanc, yr asiantaethau perthnasol gan gynnwys teuluoedd, gofalwyr ac oedolyn y mae'n gallu ymddiried ynddo.

[37] Iechyd Cyhoeddus Cymru (2018) *Ffynonellau gwydnwch a'u cysylltiadau lliniarol gyda'r niwed sy'n cael ei achosi gan brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod* Caerdydd: Iechyd Cyhoeddus Cymru

[38] Iechyd Cyhoeddus Cymru (2018) *Ffynonellau gwydnwch a'u cysylltiadau lliniarol gyda'r niwed sy'n cael ei achosi gan brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod* Caerdydd: Iechyd Cyhoeddus Cymru

DIOGELWCH: Sicrhau bod y person ifanc yn teimlo'n ddiogel yn gorfforol ac yn emosiynol.	Y cyfarwydd	• Cyflwyno'r unigolyn i wasanaethau oedolion yn raddol a fesul tipyn (prawf, carchardai ac asiantaethau eraill i oedolion) ac aelodau staff, gan gynnwys ymgyfarwyddo â lleoliadau, prosesau a'r drefn yn y ddalfa. • Trafod â'r person ifanc yn rheolaidd er mwyn deall eu pryderon ac asesu sut maent yn ymdopi â'r broses bontio ac er mwyn canfod a oes arnynt angen cymorth ychwanegol. • Helpu'r person ifanc i ddeall a delio â'r gwahaniaethau diwylliannol rhwng gwasanaethau ieuenctid a gwasanaethau oedolion. • Ystyried y cymorth ymarferol a logistaidd y gellir ei ddarparu i'r person ifanc wrth ddefnyddio gwasanaethau oedolion am y tro cyntaf (e.e. mynd i apwyntiadau gyda'r person ifanc neu rannu cyfarwyddiadau at ddarparwr newydd)
	Dilyniant	• Lle bo hynny'n bosibl, y tîm troseddau ieuenctid (YOT) i fod yn hygyrch a phwysleisio wrth y person ifanc bod dull 'drws agored' yn cael ei ddarparu er mwyn lleihau'r posibilrwydd iddo ef/hi deimlo ei fod yn cael ei wrthod/neu eich bod yn troi cefn arno. • Defnyddio'r un gweithiwr er m wyn hwyluso'r pontio, gan weithredu'n raddol drwy gyfrwng y tri chyfarfod trosglwyddo safonol gyda'r gweithiwr newydd. Defnyddio'r un gweithiwr yn ystod y ddedfryd lle bo hynny'n bosibl, gan sicrhau bod ystyriaeth ofalus yn cael ei rhoi i drefniadau trosglwyddo os oes angen gwneud unrhyw newidiadau. • Rhannu'r wybodaeth a gasglwyd drwy'r asesiadau, y cynlluniau gofal a chymorth, a drwy'r ddealltwriaeth a gafwyd o brofiadau bywyd cynnar person ifanc gan gynnwys trawma a'r hyn sy'n gwneud iddynt deimlo'n ddiogel neu'n anniogel. • Ystyried mynediad parhaus i ymyrraeth/cefnogaeth ar ôl pontio lle bo hynny'n briodol. • Tynnu'r cysylltiad yn ôl yn raddol, gan sicrhau bod gan y person ifanc yr offer i symud ymlaen yn annibynnol. • Cydnabod pa mor anodd yw pontio a nodi diwedd ei gysylltiad â'r gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid mewn ffordd gadarnhaol.

DIDWYLLEDD: Bod yn glir ac yn gyson ynglŷn â'r disgwyliadau a chynnal terfynau priodol (yn enwedig rhai rhyngbersonol).	Bod yn gyson, yn rhagweladwy ac yn ddibynadwy	• Bod yn glir am y disgwyliadau, a sicrhau bod y person ifanc yn deall yr hyn sy'n cael ei ddweud. • Os yn bosibl, trefnu apwyntiadau ar yr un amser ar yr un diwrnod o'r wythnos er mwyn creu ymdeimlad o gysondeb. • Bod yn ddidwyll ac yn agored. • Rhannu gwybodaeth ar draws gwasanaethau ieuenctid ac oedolion i helpu'r person ifanc i ddeall strategaethau ymgysylltu effeithiol ar ei gyfer, i helpu i feithrin perthynas. • Bod yn dryloyw â thasgau, penderfyniadau, polisïau a gweithdrefnau, gan egluro pam rydych chi'n gwneud rhywbeth cyn ei wneud. • Pan ydych yn ymrwymo i wneud rhywbeth (h.y. gwneud galwad ffôn neu fynd ar drywydd mater) gwnewch hynny, a hynny'n amserol lle bo modd.
GRYMUSEDD: Cefnogi'r person ifanc i feithrin sgiliau a darparu cyfleoedd i ymarfer y sgiliau hynny	Meithrin sgiliau a gwytnwch	• Cydnabod cryfderau a ffactorau gwytnwch y person ifanc a gweithio gyda nhw i amlygu sut gall y ffactorau hyn eu helpu drwy'r broses bontio. • Gweithio â'r person ifanc i ganfod cyfleoedd i feithrin ffactorau gwytnwch, canfod eu diddordebau a defnyddio asedau cymunedol, e.e. cyfleoedd i ymuno â chlybiau/timau chwaraeon a gweithgareddau/grwpiau cymunedol eraill. • Gweithredu ar sail cryfderau'r unigolyn gan geisio magu gobaith a phositifrwydd am y dyfodol a datblygu hunaniaeth gymdeithasol y person ifanc. • Gosod nodau realistig a chyraeddadwy, a dathlu os cyrhaeddir y nodau hynny. • Annog y person ifanc i deimlo bod ganddo reolaeth dros ei ddyfodol.